

Wylfa Newydd

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 7: Addysg a Sgiliau

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Page left intentionally blank

1.0 Addysg a Sgiliau

1.1 Trosolwg o'r Effeithiau

- 1.1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) eisiau gweld cymaint â phosibl o bobli fanc lleol yn cael cyfle i weithio yn Wylfa Newydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn ystod y gwaith adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredol a'r digomisiynu. Bydd hynny yn cynyddu lefel eu cyflogau ac yn gwella eu gobeithion gyrfa, a bydd hynny yn ei dro yn gwella eu hansawdd bywyd, eu iechyd, eu llesiant a'u ffyniant. Hefyd, bydd rhoi addysg a sgiliau priodol i bobl ifanc yn ogystal â chyfleoedd i gymhwyso hynny yn lleol, yn gymorth i gefnogi cymunedau lleol bywiog, a chadernid a hyfywedd yr Iaith Gymraeg o bosibl. Mae hefyd yn gymorth o ran arafu'r duedd tuag at boblogaeth anghymesur sy'n heneiddio ar yr Ynys. Mae cefnogaeth CSYM a thrigolion Ynys Môn i Brosiect Wylfa Newydd yn bennaf yn seiliedig ar sicrhau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel yn y tymor byr a'r hirdymor, ac er mwyn cyflawni hynny mae yna ddibyniaeth uchel ar sicrhau bod yna gyfleusterau addysg a sgiliau o safon ryngwladol wedi eu sefydlu er mwyn i'r genhedlaeth nesaf ffynnu.
- 1.1.2 Felly bydd cyflenwad digonol o bobl ifanc lleol â'r addysg a'r hyfforddiant priodol i'r farchnad swyddi yn allweddol i Ynys Môn allu manteisio ar fuddion darpar Orsaf Niwclear Wylfa Newydd. Felly mae argaeledd ac ansawdd, er enghraifft, cyngor ar ddewis pynciau a gyrfaoedd yn gritigol. Mae safon yr addysgu yr un mor bwysig, a'r angen i fynd ati i sicrhau argaeledd amgylcheddau addysgu a chyfleusterau dysgu modern ac addas i'r diben ar yr Ynys, er mwyn annog a pharatoi pobl ifanc i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r cyfleoedd fydd yn codi.
- 1.1.3 Mae gan CSYM uchelgais gaiff ei adlewyrchu yn amcanion Cynllun Ynys Môn 2017-2022¹ sef *“sicrhau bod pob disgybl, pob unigolyn ifanc, pob dysgwr, ble bynnag y maent, beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial a'u bod yn barod i chwarae rhan rhagweithiol fel dinasyddion cyfrifol y dyfodol a hyrwyddwyr cymunedau”*. Mae gan CSYM *“yr uchelgais hefyd o sicrhau bod pob disgybl, pob unigolyn ifanc, pob dysgwr, ble bynnag y maent, beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial a'u bod yn barod i chwarae rhan rhagweithiol fel dinasyddion cyfrifol y dyfodol a hyrwyddwyr cymunedau”*².
- 1.1.4 Felly mae datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd o bosibl yn cynnig cyfle arwyddocaol, cadarnhaol, a dyhead i bobl ifanc lleol allu cael eu denu at a sicrhau'r addysg a'r hyfforddiant sgiliau sydd ei angen er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol ag adeiladu a/neu weithredu'r orsaf pŵer niwclear newydd; ymgysylltu'n anuniongyrchol drwy fusnesau cadwyn gyflenwi leol a darparwyr gwasanaethau ategol i'r prosiect; neu ymgysylltu â busnesau lleol eraill sydd yn profi effeithiau niweidiol dadleoli swyddi, drwy golli staff i brosiect yr orsaf niwclear newydd.
- 1.1.5 Heb fesurau fydd yn cael eu hariannu a'u cefnogi'n ddigonol, ni fydd y buddion y gall Wylfa Newydd eu cynnig i bobl Ynys Môn yn cael eu gwireddu'n llawn.
- 1.1.6 Wrth ystyried effaith datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd ar addysg a sgiliau, mae CSYM wedi gwahaniaethu rhwng anghenion sgiliau a hyfforddiant unigolion sydd

¹Cynllun Ynys Môn 2017-2022 ([Dolen](#))

²Strategaeth Addysg Ynys Môn: Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018). ([Dolen](#))

eisoes yn y gweithlu (mater gaiff ei ystyried ym Mhennod Datblygiad Economaidd - Cyflogaeth Leol), ac anghenion addysgol y cyflenwad o bobl ifanc sydd yn debygol o fod yn rhan o'r gweithlu yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu'r orsaf niwclear arfaethedig (a ystyrir yn y Bennod yma).

1.1.9 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad a ganlyn, mewn perthynas â 1.1.7 (a) uchod, mae swît o gamau lliniaru cytunedig â ariannwyd wedi cael eu sefydlu er mwyn delio ag effeithiau mewn perthynas â:

- a) chynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod adeiladu;
- b) cynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod gweithredol; ac
- c) unioni effeithiau negyddol posibl dadleoli ac effeithiau ar ysgolion.

1.1.10 Ym mhob achos, mae angen pecynnau o fesurau ar wahân a neilltuol ar gyfer Addysg Dan 16, Addysg Ôl 16 ac Ymgysylltu â Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cymorth. Mae'r camau lliniaru angenrheidiol yn cynnwys, er enghraifft, atgyfnerthu addysg elfennol mewn ysgolion, cefnogi cyfleoedd AB a hyfforddiant mewn swydd digonol, darparu gwasanaethau allgymorth a chyfoethogi er mwyn ysgogi ac ymgysylltu pobl ifanc â phynciau sy'n gysylltiedig â STEM. Mae angen sefydlu swît o gamau lliniaru cytunedig a ariennir er mwyn:

- a) mynd i'r afael â phrinder capasiti ffisegol o bosibl mewn ysgolion er mwyn cynnal dibynnyddion gweithwyr mudol yn ystod y cyfnod adeiladu;
- b) capasiti staff er mwyn darparu addysg o ansawdd uchel i ddibynnyddion gweithwyr mudol;
- c) darparu gwasanaethau trochi'r laith Gymraeg ar gyfer dibynnyddion gweithwyr mudol sydd newydd gyrraedd; ac
- d) effeithiau ar addysg eraill o ganlyniad i ddibynnyddion gweithwyr mudol.

2.0 Paratoi'r Bennod hon

2.1 Mae CSYM wedi penodi Peter Trevitt Consulting i ddarparu cyngor ar addysg a sgiliau, gan asesu'r cynigion DCO fel y'u cyflwynwyd a dod i gasgliad mewn perthynas â'r effaith. Hefyd, mae wedi hysbysu'r camau arfaethedig allai leihau effeithiau negyddol. Ceir mwy o fanylion a thystiolaeth yn yr atodiad ategol (Atodiad 7A).

3.0 Cyd-destun

Paratoi pobl ifanc yr Ynys

3.1 Bydd darparu addysg ysbrydoledig yn helpu i gadw pobl ifanc a sgiliedig ar Ynys Môn, ond mae yna heriau arwyddocaol, er enghraifft:

- a) rhagamcanir y bydd gwariant cyhoeddus ar addysg yn gostwng ac mae CSYM yn disgwyl y bydd yr angen i wneud arbedion yn arwain at lai o wariant y pen;
- b) mae archwiliad diweddar wedi canfod bod angen £6.8 miliwn er mwyn mynd i'r afael â materion gwella adeiladau a glustnodwyd mewn ysgolion cynradd a £14m ar gyfer ysgolion uwchradd.
- c) nid yw niferoedd cofrestriadau ar gyfer hyfforddiant athrawon a recriwtio wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru am dros bum mlynedd;
- d) mae yna brinder parhaus o athrawon yn genedlaethol mewn rhai pynciau yn cynnwys cyfrwng Cymraeg a STEM; a

- e) bydd tueddiadau demograffig yn cynyddu cofrestriadau ysgolion uwchradd o un flwyddyn i'r llall yn ystod y cyfnod adeiladu arfaethedig.
- 3.2 Mae arian cyhoeddus yn cefnogi ystod eang o fentrau addysg a hyfforddiant sydd yn uniongyrchol berthnasol i Horizon a Wylfa Newydd, er enghraifft:
- a) O dan Gynllun Cyflogadwyedd Cenedlaethol 2018 mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer lansio dau wasanaeth cyflogadwyedd newydd yn 2019, Cymru'n Gweithio a Phorth Cymorth Cyflogaeth (EAG). Mae'r rhain yn amcanu at ymgysylltu â hyd at 50,000 o bobl bob blwyddyn ac at weithio gyda thua 42,000 o oedolion yn ystod y 4 blynedd cyntaf drwy raglen Cymru'n Gweithio.
 - b) Bydd rhaglen Cymunedau am Waith yn rhoi cymorth cyflogadwyedd i dros 13,500 o gyfranogwyr sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor erbyn 2020.
 - c) Mae Cronfa Datblygu Sgiliau newydd gwerth £10 miliwn wedi cael ei lansio er mwyn hybu darpariaeth sgiliau rhanbarthol a thargedu bylchau mewn sgiliau ar gyfer swyddi penodol.
 - d) O 2020 bydd cynllun gweithlu Gofal Plant, chwarae a Blynyddoedd Cynnar yn darparu arian ar gyfer addysg gynnar a gofal plant i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
 - e) Bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno³ prentisiaethau lefel uchel yn 2011. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 19 o ddarparwyr dysgu yn y gweithle er mwyn cynnal rhaglenni prentisiaeth led-led Cymru.
- 3.3 Mae Horizon yn nodi mai ei amcan yw gwneud y mwyaf o gyfranogiad llafur trigolion Ynys Môn ym Mhrosiect Wylfa Newydd, ac mewn egwyddor mae'n derbyn cyfrifoldeb am gynorthwyo'r gymuned i wireddu hynny, ond nid yw wedi darparu strategaeth Addysg a Sgiliau ac nid yw ei gynigion yn cynnwys llawer o ymrwymïadau. Mae tystiolaeth CSYM yn dangos bod hynny yn achosi risg gwirioneddol o golli'r cyfleoedd a'r buddion economaidd ehangach ar gyfer pobl Ynys Môn.
- 3.4 Mae wedi cyfaddef ei hun ei fod wedi defnyddio profiadau y tu allan i Ewrop er mwyn arwain ei gynigion, gan gydnabod mai'r "Risg o ddefnyddio prosiectau y tu allan i'r DU/Ewrop yw bod cyd-destun y farchnad lafur yn aml yn wahanol iawn i'r DU, ac mae hynny yn lleihau'r gallu i drosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd⁴". Mae'r cynigion yn ymwneud â gosod Uwch Adweithydd Dŵr Berw cyntaf Ewrop, ac mae angen bod yn ofalus mewn perthynas â bob maes sydd yn ymwneud â swyddi a sgiliau.

Capasiti a Galluogrwydd ysgolion yr Ynys

- 3.5 Mae gan CSYM gyfrifoldebau statudol a strategol dros ddarparu addysg ar Ynys Môn, ond mae arian cyhoeddus a chyllidebau o dan bwysau mawr ac mae CSYM yn disgwyl y bydd yr angen i wneud arbedion yn arwain at lai o wariant y pen yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- 3.6 Er gwaetha'r heriau hyn, gweledigaeth CSYM yw y bydd Ynys Môn yn dod yn lleoliad adnabyddus am ei seilwaith addysgol pwrpasol o safon byd-eang, yn benodol ond nid yn unig, mewn pynciau STEM, a chael gweithlu â'r sgiliau priodol fydd yn bodloni galwadau ei bartneriaid yn y sector ynni a'r sectorau cysylltiedig.
- 3.7 Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn ychydig o gapasiti mewn rhai ysgolion yn ei stoc, ond mae nifer o ysgolion cynradd, yr ysgol anghenion addysgol arbennig, a'r ddarpariaeth meithrin, yn llawn ar hyn o bryd. Mae CSYM yn statudol rhwymedig ac

³ Estyn, Uwch Brentisiaethau dysgu yn y gweithle Medi 2018 ([Dolen](#))

⁴ Llyfrgell Archwilio APP-[096] para 2.3.1

o dan bwysau ariannol i aildrefnu'r capasiti dros ben, ac mae proses gymhleth sydd yn cynnwys ystyried moderneiddio ac aildrefnu yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd rhagddynt. Mae angen moderneiddio llawer o'r stoc ysgolion, a disgwylir y bydd ychydig o arian ar gyfer adnewyddu ac ailwampio ar gael gan Lywodraeth Cymru o dan ei gynllun Ysgolion y 21ain Ganrif yn ystod cyfnod adeiladu arfaethedig Wylfa Newydd.

- 3.8 Mae yna brinder parhaus o athrawon yn genedlaethol mewn rhai pynciau yn cynnwys cyfrwng Cymraeg a STEM, ac mae hynny yn broblem benodol i weledigaeth CSYM oherwydd bod tystiolaeth yn dangos mai addysgu yn y dosbarth, o'r holl ffactorau, sydd yn dylanwadu fwyaf ar ddeilliannau disgyblion. Bydd tueddiadau demograffig yn cynyddu cofrestriadau ysgolion uwchradd o un flwyddyn i'r llall yn ystod y cyfnod adeiladu arfaethedig, a bydd hynny yn cynyddu'r her o recriwtio a chadw athrawon rhagorol.
- 3.9 Addysg trochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant o 3 oed sydd yn symud i'r ardal yn gallu datblygu eu sgiliau laith Gymraeg a dechrau'r broses o integreiddio i addysg cyfrwng Cymraeg. Un o flaenoriaethau'r Awdurdod yw atgyfnerthu a diogelu addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae'r amcanion hynny yn alinio'n llawn â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Ar gyfer dysgwyr oedran cynradd mae yna ddwy ganolfan drochi ar yr ynys, ac mae'r ddwy yn agos at gapasiti llawn. Ar gyfer rhai oedran uwchradd yr arfer presennol yw darparu addysg drochi ym mhob ysgol.

4.0 Effeithiau a chronfa dystiolaeth - paratoi pobl ifanc yr Ynys

4.1 Effaith 1: Cynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod adeiladu

- 4.1.1 Ar anterth y cyfnod adeiladu, mae Horizon yn amcangyfrif y bydd 1260 o drigolion Ynys Môn yn cael eu cyflogi gan y Prosiect. Mae CSYM yn ystyried bod hynny yn rhy isel ac nad yw'n gydnaws â gwneud y mwyaf o gyflogaeth leol. Bydd methiant ar ran Horizon i wneud y mwyaf o gyflogaeth leol yn arwain at:
- a) anfantais i economi'r Ynys a llesiant ei phobl o'i gymharu â'r cyfle;
 - b) methu â gwireddu'r potensial llawn ar gyfer buddion economaidd Wylfa Newydd; a
 - c) methu â gwireddu potensial llawn cyfleoedd cyflogaeth o ran cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn Wylfa Newydd, yn ogystal â swyddi gwag a achosir gan gorddi ac adleoli.
- 4.1.2 Mae Horizon yn cynnig monitro fel ymateb i ansicrwydd, ond mae yna amheuaeth sylweddol a fyddai yna ddigon o amser i gymryd y camau angenrheidiol o ystyried yr amserlenni cymharol hir sydd yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Mae gweithredu'n hwyr neu ar frys yn y sector addysg a hyfforddiant yn llai tebygol o fod yn effeithiol a gallai achosi aflonyddwch sylweddol ychwanegol. Ni ddylai'r angen i fod yn hyblyg olygu diffyg eglurder ynghylch maint yr ymrwymiad y gall ei gynnig neu sut y byddai hynny yn cael ei reoli.
- 4.1.3 Nid yw'n eglur a yw amcangyfrifon Horizon mewn perthynas â chyflogaeth leol yn ystyried yr holl ffactorau allai effeithio ar recriwtio. Gallai methu â rhagdybio'r ffactorau yma yn briodol gynyddu'r angen am lafur lleol, ac mae'n bwysig bod y boblogaeth leol yn barod ar gyfer hynny. Mae'r ffactorau hynny yn cynnwys:
- a) gofynion mewn perthynas â'r laith Cymraeg;

- b) mae cymudo hir ar draws DCCZ yn ffafrio gweithwyr lleol yn fwy nag y mae Horizon yn ei ragdybio (e.e. mae'r cymudo cyfartalog presennol yn 12 milltir, ond mae nifer o ardaloedd y DCCZ yn llawer pellach na hynny); ac
- c) effeithiau dadleoli swyddi.

Addysg dan 16

- 4.1.4 Mae plant ysgol yn cynrychioli un o'r ffynonellau llafur pwysicaf i'r dyfodol ar gyfer Wylfa Newydd, ac o ran helpu i lenwi swyddi fydd yn deillio o ddadleoli. Mae gwneud y mwyaf o gyflogaeth ar gyfer Ynys Môn yn golygu bod y dysgwyr yma yn derbyn yr addysg ysgol orau posibl. Mae cyrhaeddiad isel gan adawyr ysgol yn arwain at effaith hirdymor, ac yn cyfyngu ar gyrhaeddiad mewn lefelau dilynol o ran addysg a hyfforddiant. Mae hynny yn ei dro yn gwanhau llif y rhai hynny sydd yn barod i ymgymryd â chyfleoedd cyflogaeth. Bydd canlyniadau negyddol addysg ysgol wannach yn gymwys nid yn unig i adawyr ysgol ar Lefel NVQ 1 a 2, ond hefyd ar Lefelau 3, 4 a 5, yn cynnwys y swyddi STEM sgiliau uchaf o bosibl. Yn y tymor hirach, mae cyrhaeddiad addysgol is yn arwain at wendid yn sgiliau'r farchnad lafur ac yn achosi anawsterau i fusnesau, mwy o broblemau recriwtio, dilyniant gyrfa cyfyngedig a chynnydd mewn diweithdra lleol.
- 4.1.5 Bydd y mewnlifiad o drigolion newydd, yn cynnwys plant dibynnol, i Ynys Môn yn cynyddu'r galw am lefydd mewn ysgolion ac addysg. Felly, heb gymryd camau lliniaru addas, bydd Wylfa Newydd yn cynyddu'r anawsterau o ran sicrhau niferoedd llawn o athrawon priodol gymwys. Mae yna gysylltiad sydd wedi ei hen sefydlu rhwng cyrhaeddiad isel mewn addysg a phrinder athrawon, hyfforddwyr neu staff ategol sydd â chymwysterau a phrofiad digonol mewn swyddi parhaol. Hefyd dangoswyd bod defnyddio mwy o athrawon llanw neu athrawon ar gontractau tymor byr yn effeithio ar addysg plant a bod hynny yn arwain at gyrhaeddiad addysgol is. Mae canlyniadau eraill yn cynnwys meintiau dosbarth uchel, llwythi gwaith mawr, athrawon yn addysgu pynciau nad ydynt wedi arbenigo ynddynt, straen ar athrawon eraill, penaethiaid yn treulio llai o amser yn cyflawni eu prif rôl, mwy o faich gweinyddol a phroblemau o ran cynllunio dilyniant. Mae'r problemau yma hefyd yn gysylltiedig â phroblemau o ran cadw staff, a gall hynny hefyd arwain at fwy o brinder staff.
- 4.1.6 Bydd Prosiect Wylfa Newydd yn cynyddu'r angen am sgiliau STEM, ac er bod cyfleusterau addysgu STEM yn ysgolion Ynys Môn yn ddigonol a diogel, mae cyllidebau'r awdurdod lleol yn gyfyngedig a gallai hynny arwain at lai o weithwyr â'r sgiliau priodol na ellid ei sicrhau gyda buddsoddiad ychwanegol wedi ei dargedu'n briodol, yn arbennig pan fo hynny hefyd yn gallu helpu i wella cyfleoedd cyflogaeth rhai ag anghenion addysgol arbennig, anabledau, a heriau eraill, yn ogystal â'r rhai mwy abl a thalentog.
- 4.1.7 Gallai methu ag atgyfnerthu addysgu mewn addysg gynradd ddechrau effeithio'n niweidiol ar y farchnad gyflogaeth erbyn 2014 (un flwyddyn cyn i'r rhagfynegiad mewn perthynas â'r Gweithlu Adeiladu gyrraedd ei anterth cyflogaeth, gan dybio bydd y Prosiect yn dechrau yn 2019). Gallai methu ag atgyfnerthu addysgu mewn addysg uwchradd ddechrau effeithio'n niweidiol ar y farchnad gyflogaeth yn gyflymach, ymhell cyn gyrraedd anterth y gwaith adeiladu.
- 4.1.8 Bydd methiant ar ran Horizon i gyfrannu'n gyfrifol at fuddsoddi mewn addysg gynradd ac uwchradd yn arwain at fethu cyfleoedd i helpu ysgolion ar Ynys Môn i gyrraedd y safonau uchaf, i baratoi y genhedlaeth iau o bobl ifanc i fod yn weithwyr cymwys, hyfforddedig a hyblyg, a darparu'r gweithlu lleol y mae Horizon wedi ei ddefnyddio

wrth gynnal ei asesiadau o effeithiau lluosog y Prosiect. Bydd methu â chyrraedd y gyfradd o lafur lleol a ragfynegwyd yn cynyddu'r effeithiau ar draws nifer o feysydd yn cynnwys tai, yr Iaith Gymraeg a diwylliant, cydlyniad cymunedol ac effeithiau ar wasanaethau a chyfleusterau lleol.

Addysg Ôl 16

- 4.1.9 Rhagfynegir prinder yng nghyflenwad trigolion Ynys Môn fydd â NVQ Lefel 4+ mewn pynciau STEM ac NVQ Lefel 3 mewn pynciau adeiladu a pheirianeg. Mae camau Horizon hyd yma mewn perthynas â Chanolfan Beirianeg newydd Llangefni a Grŵp Llandrillo Menai i'w croesawu, ond mae'n ymddangos bod yna fylchau mewn argaeledd cyrsiau ar gyfer meysydd sgiliau allweddol penodol sydd yn rhesymol hygrych i drigolion Ynys Môn.
- 4.1.10 Bydd methu â darparu cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth addas a lleol yn cyfyngu ar faint o bobl ifanc fydd yn ymgymryd â chyrtsiau NVQ Lefel 1, 2, a 3 penodol sydd yn fwyaf perthnasol i Brosiect Wylfa Newydd, yn cynnwys y rhai sydd yn NEET, yn economaidd anweithgar, neu sydd yn wynebu rhwystrau eraill mewn perthynas ag addysg. Bydd hynny yn gostwng ansawdd y gweithlu, yn cyfyngu ar y potensial i sicrhau gyrfaoedd boddhaus a chadarnhaol i'r grwpiau yma, ac yn dwysáu anfanteision ac anghydraddoldeb. Bydd hefyd yn cyfyngu ar y buddion unigol a chymunedol ehangach hirdymor all ddeillio o gyflogaeth.
- 4.1.11 Bydd Diffygion o ran cyfleoedd a llwybrau addysg a hyfforddiant hygrych ar Lefelau NVQ 3, 4 a 5, ac mewn sgiliau sydd yn addas ar gyfer y swyddi STEM mwyaf arbenigol yn cyfyngu ar gyrhaeddiad unigolion mewn perthynas â chymwysterau perthnasol, ac ni fyddant i'r un graddau yn gallu derbyn cyfleoedd cyflogaeth a ddaw o ganlyniad i Wylfa Newydd, boed hynny yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu'n rhai a grëir. Er enghraifft, bydd bylchau mewn darpariaeth llwybr hyfforddiant yn effeithio ar bob lefel uwch ben hynny, ac yn y pen draw byddir yn methu â sicrhau'r nifer mwyaf posibl o drigolion Ynys Môn sydd â sgiliau addas ar gyfer swyddi cyflog uchel yn ystod y gwaith adeiladu.
- 4.1.12 Bydd nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr fydd yn dymuno astudio ar lefel AU yn gyfyngedig os bydd cyflenwad y rhai sydd yn gymwys ac wedi eu hysgogi i gyrraedd y lefel mynediad gofynnol yn annigonol. Oherwydd bod y swyddi y bydd y grŵp yma yn addas ar eu cyfer ymysg y rhai sydd â'r cyflogau uchaf a mwyaf sefydlog o bosibl, a bod amseroedd arwain hir yn gysylltiedig â hynny, bydd methu â gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd yma yn arwain at effaith niweidiol sylweddol.
- 4.1.13 Bydd nifer o'r rhai allai fod yn ystyried ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant ôl 16 yn cael anhawster o ran teithio pellter mawr, a bydd yr amser a'r gost fydd yn gysylltiedig â theithio yn effeithio'n sylweddol negyddol ar eu gallu a'u parodrwydd i wneud hynny. Mae hynny yn cynnwys y rhai hynny sydd yn NEET, neu yn ddi-waith yn hirdymor, ond hefyd nifer o grwpiau eraill fydd efallai yn dymuno hyfforddi neu ailhyfforddi.
- 4.1.14 Bydd methu â chefnogi hyfforddiant athrawon cychwynnol mewn pynciau ble ceir prinder yn gwaethgu'r anawsterau o ran sicrhau bod nifer digonol o athrawon hyfforddedig ar gael er mwyn bodloni'r galw yn ysgolion Ynys Môn. Mae hynny yn berygl o wanhau cyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion a chynyddu'r anawsterau o ran sicrhau digon o athrawon er mwyn gallu derbyn dibynyddion gweithwyr o'r tu allan.

4.1.15 Os na fydd athrawon a hyfforddwyr yn gallu addysgu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd hynny yn effeithio ar y rhai sydd yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ni fydd hynny yn bodloni amcan CSYM o sicrhau bod pob llwybr addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sydd yn dymuno hynny.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

4.1.16 Mae methu â chodi ymwybyddiaeth yn ddigonol a rhoi arweiniad o ran materion cyflogaeth pwysig drwy gyngor gyrfaoedd, codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu i rai oedran ysgol yn debygol o arwain at lai o ysgogiad a dewisiadau gwael o ran addysg a gyrfa, gan gyfyngu ar allu dysgwyr i wireddu eu llawn botensial, a methu â darparu'r cronfeydd llafur sgiliedig priodol sydd eu hangen ar y Prosiect er mwyn cyrraedd ei dargedau llafur lleol.

4.1.17 Gallai methu â darparu ystod o wasanaethau cymorth ymgysylltu cynhwysfawr sydd wedi eu dylunio'n dda ar gyfer ysgolion ar raddfa sylweddol effeithio ar ystod o ffactorau pwysig, a gallai hynny arwain at lai o ddisgyblion yn caffael y sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at gyfleoedd a grëir gan y Prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a) llai o ysgogiad a hunanhyder ymysg disgyblion ac athrawon;
- b) llai o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd STEM;
- c) llai o effaith ar oresgyn stereoteipio rywedd a rhwystrau rhag ymgymryd â chysiau gwyddoniaeth ymysg genethod, a hynny yn arwain at lai o enethod mewn gyrfaoedd STEM;
- d) agweddau negyddol tuag at STEM ac addysg STEM ymysg rhai sydd yn dylanwadu ar ddysgwyr y tu allan i'r ysgol megis rhieni a theulu ('cyfalaf gwyddoniaeth');
- e) llai o ymwybyddiaeth o weithleoedd a diwylliant gweithleoedd a'r cyfleoedd y gallent eu cynnig; a
- f) llai o gyfranogiad rhieni a'r gymuned mewn addysg.

4.1.18 Bydd methu â hyrwyddo prentisiaethau a'r ystod o gyfleoedd hyfforddiant a lleoliad gwaith i bobl ifanc ac oedolion yn cyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr, gan leihau nifer y rhai sydd yn cymhwyso, ac sydd yn cael mynediad i'r gweithlu yn dilyn hynny neu'n symud i'r cam nesaf ar y llwybr hyfforddiant a ddewiswyd ganddynt. Gallai hynny gyfyngu ar gyflogaeth leol yn ystod y cyfnod adeiladu.

4.1.19 Mae methu â chodi ymwybyddiaeth ymysg oedolion a chontractwyr o'r cyfleoedd am waith sydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd neu'r cyfleoedd dadleoli posibl yn debygol o arwain at oedi mewn cwmnïau unigol ar yr Ynys o ran cymryd camau er mwyn ymgysylltu â chyfleoedd addysg a hyfforddiant a'u cefnogi. Bydd hynny yn lleihau'r cyflenwad o ymgeiswyr addas cymwys ar gyfer y rolau yn ystod camau cyntaf y gwaith adeiladu.

4.1.20 Hefyd, mae'n bosibl y bydd codi ymwybyddiaeth yn dylanwadu ar lefel graddedigion, a dylid nodi bod nifer y gadawyr ysgol ar Ynys Môn sydd yn mynd ymlaen i addysg uwch yn gostwng ar hyn o bryd. Mae denu'r rhai sydd yn dewis addysg bellach mewn lleoliadau pell i ddychwelyd i Ynys Môn ar ôl eu hastudiaethau yn flaenoriaeth i CSYM. Bydd methu â hyrwyddo Wylfa Newydd yn ddigonol fel darpar gyflogwr sydd yn cynnig cyflogaeth gynaliadwy i raddedigion STEM yn benodol yn cyfyngu ar nifer y rhai fydd â chymwysterau NVQ Lefel 4 ac uwch allai ddychwelyd i'r Ynys neu symud i fyw i'r Ynys, gan leihau'r gronfa sgiliau fydd yn berthnasol i Wylfa Newydd, Ynys Ynni a mentrau eraill.

- 4.1.21 Bydd methu â chynyddu diddordeb mewn dysgu fel gyrfa yn effeithio ar ymdrechion i ddarparu capasiti addysgu ychwanegol ar gyfer dibynyddion gweithwyr a chodi cyrhaeddiad addysgol. Mae recriwtio athrawon mewn pynciau STEM a rolau cyfrwng Cymraeg yn bwysig o ran cyflawni'r amcan o wneud y mwyaf o gyflogaeth.
- 4.1.22 Mae Horizon yn cydnabod ei gyfrifoldeb o ran gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o gyflogaeth leol, ond ni cheir llawer o ymrwymadau clir ynghylch ei rôl yn y dyfodol neu gyfraniadau o ran cyllido. Mae'n ymddangos bod lefel y cyfranogiad llafur lleol a amcangyfrifir yn ystod y cyfnod adeiladu yn isel, mae yna ddiffyg gwybodaeth ategol ac ni roddir targed. Ni roddir targed y gellir ei orfodi mewn perthynas â chyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. Hefyd, mae ei strategaeth ar gyfer gwneud y mwyaf o gyflogaeth leol yn aneglur, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ei gynigion WNESS a'r camau a gymerwyd hyd yma.
- 4.1.23 Mae Horizon yn amlwg yn cydnabod y cysylltiad rhwng cyflogaeth leol a budd cymunedol, yn arbennig i bobl ifanc, ac mae'n cydnabod bod addysg a hyfforddiant yn ganolog i hynny. Mae hefyd yn derbyn bod ganddo rôl o ran gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael i drigolion Ynys Môn, ond mae'r datganiadau mewn perthynas â gwneud y mwyaf o gyflogaeth leol yn cyfeirio at DCCZ ehangach, ac mae hynny yn creu anhawster o ran penderfynu ar sut mae ei gynigion yn effeithio ar Ynys Môn.
- 4.1.24 Mae Horizon yn cydnabod bod "Rhagfynegi llafur yn weithgaredd parhaus ac nid yw'n wyddoniaeth bur", gan nodi bod "Cynllunio hyfforddiant newydd neu ychwanegol ar sail rhagfynegiadau gwreiddiol yn unig yn ddull sydd yn achosi risg, ond gellir lliniaru hynny. Bydd ymgorffori cydweithio cynnar â chontractwyr a rheolyddion rhaglenni yn helpu i sefydlu lefel angen sydd yn fwy tebygol"⁵. Mae'r datganiadau yma yn disgrifio gwaith y dylid fod wedi ei wneud eisoes ac y dylid ei gynnwys yn y cynigion.
- 4.1.25 Mae ymagwedd Horizon at lefel cyfranogiad llafur lleol yn seiliedig ar ddyhead, nid ar darged. Ei amcangyfrif ar gyfer cyflogaeth ymysg trigolion Ynys Môn yn ystod 'anterth' y gyflogaeth yn gyffredinol yn ystod y cyfnod adeiladu yw 1,256 o weithwyr.
- 4.1.26 Mae Horizon yn cydnabod bod ei fodel o gyfranogiad llafur lleol yn seiliedig ar dystiolaeth gyfyngedig. Mae Dogfen ES Cyfrol C - Effeithiau prosiect cyfan Atodiad C1-2 - Atodiad technegol economaidd gymdeithasol Cyf 6.3.9 yn nodi: "Daw'r gronfa dystiolaeth ar gyfranogiad lleol o ystod cyfyngedig o astudiaethau ar ddatblygiadau gorsafoedd pŵer, o ystyried yr adfywiad cymharol ddiweddar mewn perthynas â chynigion Gorsafoedd Pŵer Niwclear". [2.4.15]
- 4.1.27 Mae Horizon yn cynnig monitro fel ymateb i ansicrwydd, ond yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'n eglur sut y byddai hynny yn gweithio ac mae yna amheuaeth sylweddol a fyddai yna ddigon o amser i gymryd y camau angenrheidiol o ystyried yr amserlenni cymharol hir sydd fel arfer yn gysylltiedig â materion yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, recriwtio a chyflogaeth.

Ymarferion cyflogaeth

- 4.1.28 Mae Horizon yn cydnabod y bydd "llawer" o'r gyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu yn deillio o'r gadwyn gyflenwi ac y bydd cyflogaeth ac ymarferion cysylltiedig yn y gadwyn gyflenwi yn effeithio ar y nod ehangach o wneud y mwyaf o gyflogaeth ar gyfer trigolion Ynys Môn, ond ychydig o fanylion a geir ar sut mae'n bwriadu dylanwadu ar hynny ac mae unrhyw gynigion yn amwys, er enghraifft: "Bydd Horizon

⁵ Llyfrgell Archwilio APP-[411]

yn annog cyfraniad cadarnhaol gan ei gyflenwyr i'r cymunedau lleol y maent yn gweithio ynddynt ar ein rhan", ac nid yw hyn yn ymrwymiad pendant i gymryd unrhyw gamau a ddiffinnir. Ni ddarperir manylion ynghylch sut y gallai patrymau cyflogaeth amrywio rhwng cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae cyfeiriadau at gamau penodol ond yn nodi y byddant yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

- 4.1.29 Nid yw Horizon yn darparu gwybodaeth am sut y bydd ei ymarferion recriwtio yn gwahaniaethu rhwng trigolion Ynys Môn ac eraill, os o gwbl. Mae yna angen brys i gael mwy o wybodaeth am ddulliau recriwtio a chontractio.
- 4.1.30 Mae Horizon yn ymrwymo'n amlwg i gynnwys y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi dadleoli fel rhan o'i fuddsoddiad yn sgiliau pobl Ynys Môn, ac mae hynny yn fuddiol. Ond, nid yw'n cynnig llawer o wybodaeth am effeithiau dadleoli posibl, boed hynny yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac mae'n honni ei bod yn "amhosibl gwybod beth fydd y raddfa debygol" mewn perthynas â hynny.

SAFBWYNT HORIZON

Addysg dan 16

- 4.1.31 Mae Horizon yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros gefnogi addysg a hyfforddiant ond nid yw'n nodi llawer o ymrwymadau clir.
- 4.1.32 Mae Dogfen 8.17 datganiad Cynaliadwyedd yn cyfeirio at raglen fuddsoddi cyfalaf ar gyfer y 5 ysgol uwchradd ar Ynys Môn, ond ni ddarperir mwy o wybodaeth yn ei gyflwyniad DCO. [5.9.4]
- 4.1.33 Mae Horizon yn cynnig penodi un aelod staff er mwyn "ysgwyddo'r cyfrifoldeb o weithio gydag athrawon er mwyn datblygu mwy ar adnoddau cynradd ac uwchradd" ac y bydd adnoddau newydd ar gael ar "wefan Dyfodol". Ni ddarperir mwy o fanylion ar feysydd pwnc, perthnasedd oedran, pwrpas nac amserlenni er enghraifft. Mae angen mwy o wybodaeth am yr adnoddau oherwydd bod hynny yn faes cymorth pwysig, yn arbennig o ystyried y lefel uchel ddisgwyliedig o ran yr angen i adnoddau ysgolion fod yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn aneglur a yw cynnig Horizon yn gyfyngedig i un aelod staff, neu a fyddai'r aelod staff yma yn rheoli cyllideb ar gyfer datblygu adnoddau gan ddefnyddio arbenigwyr allanol.
- 4.1.34 Mae Horizon yn nodi "Mae cynigion yn cael eu cwblhau ac maent yn cynnwys ymgysylltu â blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd ar Ynys Môn", ond mae hynny yng nghyd-destun "adeiladu a rhai elfennau o hyfforddiant technegol ar gyfer gweithluoedd adeiladu a gweithredol y Prosiect". Mae angen mwy o wybodaeth, ac nid yw'n eglur a yw'r ymgysylltu ar lefel ysgolion yn gyfyngedig i'r sgiliau penodol yma, yn arbennig mewn perthynas â blynyddoedd cynnar a lefel cynradd.
- 4.1.35 Mae gan athrawon a hyfforddwyr rôl ganolog i'w chwarae o ran darparu addysg o ansawdd uchel, ond nid yw dogfennau cynigion yn ymdrin â phwysigrwydd critigol sicrhau niferoedd digonol o athrawon cymwys neu hyfforddwyr er mwyn delio â'r cynnydd mewn galw.
- 4.1.36 Nid yw'n eglur a fwriedir i'r hyfforddiant i athrawon y mae Horizon yn nodi ei fod yn ei ddarparu ar hyn o bryd mewn perthynas â'i Raglen Allgymorth Cynradd barhau, neu sut mae hynny yn gysylltiedig â dysgu proffesiynol arall megis y gwasanaethau a ddarperir gan Gonsortiw Addysg GwE.
- 4.1.37 Mae Horizon yn cyfeirio at "ganolbwynt addysg" ac at "adnabod manau cyswllt addysg". Mae'r rhain o bosibl yn ddiddorol, ond ni ymhelaethir ar y telerau, ac mae angen mwy o wybodaeth.

Addysg Ôl -16

- 4.1.38 Mae'r cyfrifoldeb y mae Horizon wedi ei dderbyn yn y maes yma yn gymharol gryf, ac mae'n dangos ymrwymiad mewn egwyddor i gefnogi hyfforddiant i'w weithwyr ac i'r rhai sydd eu hangen ar y gadwyn gyflenwi a thrwy ddadleoli yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'n dangos ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau i ymgorffori mesurau i fynd i'r afael ag anweithgarwch, anfantais a chydbwysedd rhwng y rhywiau, ac mae'n ymddangos ei fod yn derbyn yr "her" o ganolbwyntio ar gefnogi cyflogaeth hirdymor.
- 4.1.39 Ond, ar ffurf amlinelliad yn unig y mynegir yr ymrwymiad i gefnogi addysg ôl 16, ac mae hynny yn anfodddhaol. Mae angen dadansoddi mwy ar ddatganiad Horizon bod y cymorth sydd eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer prentisiaethau yn ddigonol, ond mae'n ymddangos bod hynny ond yn wir os yw cyflogaeth leol yn y meysydd sgiliau yma ar y lefelau cyffredinol cymharol isel a amcangyfrifir gan Horizon.
- 4.1.10 Mae'r mesurau a ddisgrifir yn bennaf gysylltiedig â hyfforddiant adeiladu a pheirianeg yn ystod y cyfnod adeiladu, nid meysydd hyfforddiant eraill fydd yn angenrheidiol. Mae hefyd yn rhestru cyrsiau fydd angen eu sefydlu sydd yn mynd i'r afael â nifer o feysydd blaenoriaethol ble mae angen mwy o weithredu, ond nid yw'r rhain yn gysylltiedig â chynigion clir o ran darpariaeth.
- 4.1.41 Ni roddir digon o wybodaeth er mwyn asesu beth fyddai cyfraniad Horizon er mwyn mynd i'r afael â bylchau posibl mewn cyrsiau ar gyfer sgiliau perthnasol, cyrsiau nad ydynt ar gael mewn lleoliadau hygyrch, ac nid yw'n eglur sut y bydd crefftwyr yn caffael y profiad angenrheidiol ar safle er mwyn cymhwyso i wneud i gwaith (a ddisgrifir fel isafswm o un flwyddyn).
- 4.1.42 Mae Horizon yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch o ran darparu addysg ôl 16, ac mae'n bwriadu cefnogi camau lliniaru, ond ni roddir manylion pendant. Ar gyfer gweithwyr hŷn neu ddi-waith mae Horizon yn ymrwymo i sicrhau y bydd "allgymorth neu hyfforddiant parodrwydd i weithio yn cael ei hwyluso". Nid yw'n eglur beth mae "hwyluso" yn ei olygu ac a fydd Horizon yn ariannu hynny ac o dan pa amgylchiadau, er enghraifft, a fydd hyfforddiant parodrwydd i weithio ond yn cael ei ddarparu i rai sydd wedi cael cynnig swydd?
- 4.1.43 Nid yw cynigion Horizon yn cyfeirio at athrawon a hyfforddwyr cyrsiau ôl 16, ac nid oes cynigion mewn perthynas â chefnogi hyfforddiant athrawon.
- 4.1.44 Mae cynigion Horizon yn cyfeirio at beth cefnogaeth ac arian ar gyfer cyfleusterau hyfforddi hyd yma. Mae cyfeiriadau at weithio gyda phartneriaid er mwyn darparu hyfforddiant yn y dyfodol yn aneglur ac nid yw'n benodol o ran rolau, cyfraniadau ariannol neu fath o hyfforddiant. Mae lleoliadau'r cyfleusterau hyfforddi y cyfeirir atynt yn Ardal Datblygiad Wylfa Newydd ac yng Ngholeg Menai, sydd yn cynnwys lleoliadau nad ydynt yn hygyrch iawn i nifer o drigolion Ynys Môn.
- 4.1.45 Nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael â phwysigrwydd mynediad at hyfforddiant a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â theithio'n bell, yn arbennig i bobl ifanc, y rhai dan anfantais economaidd a phobl anabl.
- 4.1.46 Mae dogfennau cynigion Horizon yn disgrifio peth cymorth presennol ac yn y gorffennol a ddarparwyd i addysg uwch yn cynnwys darparu cyfleoedd lleoli graddedigion a noddi cyrsiau. Mae llawer o'r gweithgaredd yma o fudd i bobl nad ydynt yn byw ar Ynys Môn, er ei bod yn bosibl y byddant yn drigolion hirdymor yn y dyfodol. Ni roddir unrhyw ymrwymiad clir i ddarparu cymorth wrth symud ymlaen.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

- 4.1.47 Mae cynigion Horizon mewn perthynas â chyngor gyrfaoedd ac ymgysylltu yn cynnwys llawer allai helpu i gyflawni'r amcan a rennir o wneud y mwyaf o gyflogaeth i drigolion Ynys Môn. Fodd bynnag, ym mhob achos mae yna brinder gwybodaeth am rôl Horizon a sut y byddai'n cyfrannu'n ariannol.
- 4.1.48 Mae datganiadau ar ariannu drwy 'Gronfa Sgiliau' Horizon yn galonogol ac maent yn nodi y bydd yr arian yma yn "cefnogi" rhoi WNESS ar waith (yn cynnwys allgymorth, hyfforddiant parodrwydd i weithio etc.) a llwybrau cyfathrebu (yn cynnwys platfformau cyfryngau cymdeithasol) yn y gymuned leol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Fodd bynnag, nodir bod y gronfa yn "hyblyg" ac nid yw'n glir beth yw maint y gronfa yma, beth yw ystyr y term "cefnogi" (e.e. a yw'n golygu ariannu'n rhannol), sut y gallai newid dros amser, neu ar ba sail y byddir yn gwneud penderfyniadau. Mae'r cynigion yn nodi mai corff o'r enw 'Gwasanaeth Swyddi a Sgiliau' fydd yn gyfrifol am oruchwylio WNESS ond nid yw'n eglur beth mae hynny yn cyfeirio ato.
- 4.1.49 Mae'r datganiadau sydd yn ymwneud â WNESS yn gweithio gyda "chontractwyr a rhanddeiliaid er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i drigolion lleol, pobl ddi-waith, pobl ifanc a grwpiau sydd yn draddodiadol yn cael eu tangynrychioli yn y gweithlu adeiladu" i'w croesawu, ond eto nid oes digon o fanylion ynddynt.
- 4.1.50 Mae'r cynigion yn cynnwys rhai cyfeiriadau at y ffaith bod cylch gwaith WNESS hefyd yn cynnwys cyflogaeth anuniongyrchol a rhai agweddau o addysg a hyfforddiant, ond mae hynny yn llai manwl sydd yn golygu ei bod yn anodd eu hasesu.
- 4.1.51 Mae'r sgematig yn Ffigyrau 1.7 a 1.8 yn Cyf 6.3.1 C1-Economeg cymdeithasol (Ad 1.0) yn awgrymu bod Horizon yn ystyried bod ei rôl o ddarparu'r gwasanaethau yn berthnasol i'r holl brif randdeiliaid. Mae Ffigwr 1.8 yn gysylltiedig â'r cyfnod adeiladu a WNESS. Mae natur y berthynas rhwng y rhanddeiliaid a'r gweithgareddau a ddangosir yn aneglur, nid oes allwedd i'r diagramau ac mae'n cynnwys cyfeiriadau na eglurir yn unrhyw le yn nogfennau'r cynigion, er enghraifft 'secondiadau drwy brofiad', 'braenaru' a 'chynllun olyniaeth'.
- 4.1.52 Mae allgymorth i ysgolion yn cael ei gynnig, ond mae'n ymddangos mai ei brif bwrpas yw "cyfathrebu gofynion Horizon o ran addysg a sgiliau" yn hytrach na chyfoethogi'r cwricwlwm neu gefnogi athrawon. Cyfeirir at ymgysylltu ag ysgolion er mwyn "dangos ymrwymiad i faterion ehangach h.y. buddion cymunedol" a "chefnogi" amcanion rhanddeiliaid ehangach. Ni ddarperir gwybodaeth glir am lefel yr arian fydd yn gysylltiedig neu ar ba ffurf fydd hynny'n digwydd.
- 4.1.53 O ran maint, mae'r cynigion yn dweud y bydd "Horizon...yn amcanu at gynyddu [ei weithgaredd allgymorth, fydd yn bennaf yn cael ei anelu at blant cynradd]". Mae ei adroddiad yn nodi ei fod ar hyn o bryd yn cyrraedd 800 o ddisgyblion dros gyfnod o tua 15 mis. Mae hynny yn cynrychioli dim ond un digwyddiad ymgysylltu ar gyfer pob unigolyn yn ystod eu saith blynedd yn yr ysgol gynradd. Nid yw lefel y cynnydd a gynigir wedi ei fesur. Nid yw lefel y gweithgaredd ar gyfer ysgolion uwchradd wedi ei egluro.
- 4.1.54 Mae Horizon yn cynnig penodi dau swyddog addysg (yn ystod y tymor yn unig) i "ymgysylltu, darparu a hyfforddi athrawon i ddefnyddio ac ymgorffori'r rhaglen [allgymorth] yn eu cwricwlwm. Mae angen mwy o wybodaeth.
- 4.1.55 O dan y pennawd "Ymgysylltu ag Ysgolion" mae Horizon yn nodi y bydd yn "targedu ysgolion mewn ardaloedd daearyddol blaenoriaethol, gan ymgysylltu â'r 5 Ysgol Uwchradd a'r 47 Ysgol Gynradd ar Ynys Môn" ond ni roddir mwy o wybodaeth ac nid yw'n glir ar ba ffurf fydd yr ymgysylltu hwnnw na phryd y bydd yn digwydd. O'r cyd-

destun mae'n ymddangos ei bod yn debygol bod hynny yn ymwneud yn bennaf â chyngor gyrfaoedd.

- 4.1.56 Cyfeirir at "addysg anffurfiol" mewn "cyfleusterau fyddai'n cael eu hadeiladu yn Ardal Datblygiad Wylfa Newydd". Eto, ni roddir mwy o eglurhad am hynny ac ni roddir ymrwymiad penodol.
- 4.1.57 Mae cynigion Horizon yn cyfeirio at "Barhau i ymgysylltu ag ysgolion drwy raglen ymgysylltu addysgol 'Dyfodol'", "Big Bang Cymru" a "Llysgenhadon STEM", nid yw'n glir beth fydd maint na ffurf y cymorth gan Horizon, na pha amserlen a ragwelir. Hefyd nid yw'n glir sut mae hynny yn cydweddu â dull strategol. Mae'r ddogfen yn nodi: "Mae'r cynllun ymgysylltu yma ar gael i bob ysgol ar Ynys Môn" ac mae hynny i'w groesawu, ond nid yw sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn gyfystyr â'u darparu.

Camau lliniaru sydd eu hangen

- 4.1.58 Mae trigolion Ynys Môn o bosibl yn cynrychioli'r grŵp cyffredinol mwyaf sefydlog a rhwymedig o gyflogeion mewn perthynas â Phrosiect Wylfa Newydd, boed hynny drwy swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol neu rai a grëir.
- 4.1.59 Ystyrir nad yw amcangyfrif Horizon y bydd 1260 drigolion Ynys Môn yn cael eu cyflogi yn 'anterth' y cyfnod adeiladu (Adroddiad ar yr Effaith ar y Gymuned Cyf 8.23 tudalen 6) yn uchelgeisiol a bod hynny yn annerbyniol fel rhan o gynllun y prosiect. Mae hyn wedi cael ei ddadansoddi mewn nifer o wahanol ffyrdd er mwyn ymchwilio i'r potensial i gynyddu cyfranogiad llafur lleol. Gweler Atodiad 7A (Adran 1) i gael rhagor o fanylion.
- 4.1.60 Mae CSYM yn cynnig swît o fesurau lliniaru seiliedig ar dystiolaeth er mwyn atgyfnerthu addysg a hyfforddiant a gwella galluogrwydd a hyblygrwydd y gweithlu lleol. Mae'r dull yma yn ystyried camau a nodir gan arbenigwyr sydd yn ategu addysg a sgiliau sydd yn bodoli, ac sy'n defnyddio tystiolaeth ac ymarfer dda er mwyn darparu addysg a hyfforddiant gyda'r nod o wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth lleol fydd yn deillio o Wylfa Newydd. Bydd arian a chymorth priodol gan Horizon ar gyfer y mesurau a gynigir yn arwain at fwy o gyfleoedd gwaith y mae trigolion Ynys Môn yn briodol gymwys ar eu cyfer ar draws ystod o rolau yn ystod y cyfnod adeiladu, gan leihau rhai o effeithiau niweidiol y Prosiect drwy wneud y mwyaf o lafur lleol.
- 4.1.61 Byddai buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a sgiliau yn hybu ochr gyflenwi yr economi, gan greu cronfa fwy o lafur lleol gyda lefelau cynhyrchiant uwch. Byddai hynny yn gwella'r gallu i ymgorffori'r datblygiad yn y cymunedau o dan sylw ar Ynys Môn. Mae'r cynigion wedi eu dylunio i gefnogi:
- a) pobl sydd ar hyn o bryd yn gweithio sydd â'r sgiliau angenrheidiol;
 - b) pobl mewn gwaith ond sydd angen mwy o sgiliau i fodloni gofynion penodol Prosiectau EIP;
 - c) pobl sydd wedi colli eu swyddi yn dilyn cau gweithfeydd yn ddiweddar;
 - d) pobl ddi-waith yn cynnwys rhai sy'n ddi-waith yn hirdymor;
 - e) pobl ifanc nad ydynt ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET); a
 - f) phobl leol sydd wedi symud o Ynys Môn er mwyn sicrhau gwaith sydd efallai yn dymuno dychwelyd ac sydd wedi eu denu gan y swyddi newydd a gynigir.
- 4.1.62 Mae Atodiad 7A (adran 2) yn dangos mwy o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddibynnol ar ddeialog gyda Horizon.

4.2 Effaith 2: Cynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod gweithredu

- 4.2.1 Bydd y rhan fwyaf o'r swyddi yn ystod y cyfnod gweithredol yn rhai sefydlog a hirdymor, a bydd y rhain mewn galwedigaethau sgiliau isel, canolig ac uchel megis gweithrediadau, cynnal a chadw, cymorth technegol ac arbenigedd mewn ynni niwclear.
- 4.2.2 Mae Horizon yn amcangyfrif y bydd 850 o staff yn cael eu cyflogi yn Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredol. Yn ystod diffoddiadau bydd angen 1,000 o weithwyr dros dro yn ychwanegol, gan greu cyfleoedd sylweddol yn ystod y cyfnodau hynny. Mae'n nodi, "gyda'r ymyriadau arfaethedig i wneud y mwyaf o'r cyfraniad lleol i'r gweithlu, gellir cyrraedd cyfraniad lleol o 85%."
- 4.2.3 Mae Atodiad Technegol Economaidd Gymdeithasol C1-2 Horizon Cyf Cais 6.3.9 wedi seilio ei fodel ar 85% o weithwyr adeiladu yn byw hyd at 90 munud i ffwrdd mewn car, a 85% o weithwyr nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladu y byw 60 munud i ffwrdd mewn car.
- 4.2.4 Mae CSYM yn credu bod y safbwynt yma yn anuchelgeisiol o ystyried yr amcan a nodwyd o wneud y mwyaf o gyflogaeth ymysg trigolion Ynys Môn, ac y dylid pennu targed uwch. Nid yw cynigion Horizon yn cynnwys llawer o ymyriadau fyddai'n helpu i wireddu'r amcan yma. Bydd methiant ar ran Horizon i gefnogi Ynys Môn i wneud y mwyaf o gyflogaeth leol fydd yn deillio o Wylfa Newydd yn arwain at anfantais hirdymor i economi'r Ynys a llesiant ei phobl. Bu i CSYM yn ei ymateb i PAC2 Horizon nodi y dylai "hyd at 85%" o'r swyddi gweithredol gael eu cymryd gan drigolion lleol. Hoffai CSYM i hynny fod yn isafswm a bod y targed yn 100%.
- 4.2.5 Bu i CSYM ysgrifennu at Horizon yn dilyn cam ymgynghori PAC3 yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â rolau ar gyfer y cyfnodau diffodd, yn cynnwys a fyddai hynny yn gyflogaeth rhan amser, llawn amser neu dros dro, a faint o'r swyddi yma y mae'n ddisgwylid iddynt gael eu cymryd gan bobl leol. Nid chafwyd mwy o wybodaeth na chynigion clir.
- 4.2.6 Mae methu â chymryd camau i sicrhau bod trigolion Ynys Môn sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i sicrhau swyddi cyn pobl o du allan i Gymru, er enghraifft drwy ymarferion recriwtio addas megis hysbysebu am swyddi gwag ar Ynys Môn yn gyntaf, yn achosi risg y bydd swyddi y gallai pobl leol â chymwysterau priodol eu cymryd yn mynd i rai nad ydynt yn drigolion lleol.

Addysg dan 16

- 4.2.7 Bydd methu ag ymrwymo cymorth priodol i atgyfnerthu addysg elfennol mewn ysgolion yn golygu na ellir darparu sylfaen gadarn i sgiliau a chyrhaeddiad pobl ifanc ar yr ynys. Bydd hynny yn cyfyngu ar eu potensial yn y dyfodol i gymryd swyddi sydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd a bydd yn cyfyngu ar alluogrwydd y gronfa lafur bwysig yma i Horizon.

Addysg Ôl -16

- 4.2.8 Mae methu â chefnogi AB digonol a hyfforddiant yn y gweithle neu gyfleoedd cadw gweithwyr mewn lleoliadau addas yn cyfyngu ar allu trigolion i wireddu eu potensial ac i wneud y mwyaf o gyflogaeth leol, yn ystod y cyfnod gweithredu arferol, ac yn ystod gwaith cynnal a chadw achlysurol ac ail lenwi â thanwydd. Mae cynigion Horizon yn categoreiddio effaith swyddi ar drigolion Ynys Môn fel buddiol iawn, gan gydnabod bod hwnnw yn effaith sylweddol ond nid yw'n nodi unrhyw gymorth penodol.

4.2.9 Mae'r term 'lleol' a ddefnyddir yn nogfennau HORIZON drwyddi draw yn cyfeirio at yr ardal DCCZ gyfan, ond mae nifer o drigolion Ynys Môn allai elwa o'r hyfforddiant yn debygol o fethu â gallu teithio'n bell. Ni fyddai hyfforddiant sydd ar gael ym mhellach na Bangor, er enghraifft, yn addas i nifer. Bydd diffyg darpariaeth, neu rwystrau i addysg hygyrch a llwybrau hyfforddiant ar Lefelau 3, 4 a 5 NVQ yn cyfyngu ar gynnydd unigolion tuag at lefelau addysgol digonol, a byddant oherwydd hynny â llai o allu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth fydd yn deillio o Wylfa Newydd.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

4.2.10 Nid yw'r lefel y bydd HORIZON yn cefnogi cyngor gyrfaoedd ac ymgysylltu ar ôl y cyfnod adeiladu yn glir, ac mae'n nodi y gallai'r gwasanaeth WNESS ddod i ben ar yr adeg hynny. Yn absenoldeb ymrwymadau clir, bydd effaith gweithgaredd annigonol yn gwanhau'r llwybrau at gyflogaeth mewn swyddi sefydlog da i bobl ifanc a'r rhai fyddai'n dymuno ailhyfforddi.

4.2.11 Mae methu â darparu cymorth i ysgolion drwy wasanaethau allgymorth neu gyfoethogi yn gwanhau ysgogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc ynghylch gyrfaoedd posibl mewn perthynas â Wylfa Newydd, ac ni fydd hynny yn gwneud y mwyaf o ddiddordeb pobl mewn STEM. Bydd hynny yn cyfyngu ar gyrhaeddiad dysgwyr a chryfder y cyflenwad fydd yn mynd rhagddynt i addysg uwch a phellach.

SAFBWYNT HORIZON

Addysg dan 16

4.2.12 Nid oes yna unrhyw gynigion mewn perthynas ag addysg dan 16 ac ni chyfeirir at faterion ynghylch addysgu neu recriwtio a chadw athrawon yn ystod unrhyw gyfnod.

Addysg Ôl -16

4.2.13 Mae'n ymddangos bod Horizon yn derbyn yr "her" o gefnogi cyflogaeth hirdymor, ond nid yw ffurf ei ymrwymadau i atgyfnerthu hyfforddiant ôl 16 neu ailhyfforddi yn glir. Ni ddylai'r angen i fod yn hyblyg olygu diffyg eglurder ynghylch maint yr ymrwymiad y gall ei gynnig neu sut y byddai hynny yn cael ei reoli.

4.2.14 Mae'r cynigion mewn perthynas â hyfforddiant hygyrch mewn sgiliau nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladu yn gyfyngedig iawn.

4.2.15 Mae Horizon yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch, ac mae'n bwriadu cefnogi camau lliniaru, ond ni roddir manylion pendant. Mae'r mesurau a ddisgrifir yn ymwneud yn bennaf â'r cyfnod adeiladu, nid y cyfnod gweithredol.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

4.2.16 Mae rhai manylion ynghylch gwasanaeth gyrfaoedd WNESS arfaethedig yn cael eu darparu mewn perthynas â'r cyfnod gweithredol, ond nid yw'n eglur beth fydd cyfranogiad Horizon yn y gwasanaeth hwnnw, ac ni nodir unrhyw ymrwymiad i weithredu hynny yn ystod y cyfnod gweithredol.

4.2.17 Ni cheir unrhyw ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymorth addysgol anffurfiol i ysgolion.

Camau lliniaru sydd eu hangen

4.2.18 Yr nod cytunedig yw gwneud y mwyaf o gyfranogiad llafur trigolion Ynys Môn yn ystod cyfnod gweithredol Wylfa Newydd. O'r dechrau bydd yna gyfleoedd mewn perthynas ag ystod eang o alwedigaethau lefel isel, canolig ac uchel, a bydd effaith ymddeoliadau, corddi ac amnewid yn sicrhau angen parhaus am weithwyr gydag

ystod o sgiliau drwy gydol y cyfnod gweithredol. Bydd cyfleoedd ychwanegol am swyddi yn codi yn ystod cyfnodau cynnal a chadw ac ail lenwi tanwydd.

- 4.2.19 Mae llwybrau addysg a hyfforddiant sydd yn berthnasol i bob rôl weithredol yn Wylfa Newydd yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i drigolion Ynys Môn, ac mae angen lefel briodol o gefnogaeth gan Horizon i gyflawni hynny. Er nad yw Horizon wedi pennu targed ar gyfer cyflogeion lleol mewn perthynas â'r cyfnod gweithredol, dylid pennu bod hynny yn 100%.
- 4.2.20 Oni nodir fel arall, mae'r camau lliniaru a gynigir yn fras yr un fath â'r rhai a nodir ar gyfer Effaith 1, ac mae unrhyw wahaniaethu o ran ffurf darparu mesurau penodol yn deillio o amgylchiadau ac angen lleol. At ei gilydd, byddai lefel y mesurau hyn, ac felly lefel y cymorth a geisir gan Horizon, yn llai nag yn ystod y cyfnod adeiladu, ac mae hynny yn adlewyrchu'r nifer llai o weithwyr fyddai'n ymwneud â Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredol.
- 4.2.21 Bydd yna newidiadau i ffocws sectoraidd hyfforddiant ôl 16 er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn yr angen am sgiliau adeiladu/peirianeg mewn perthynas â'r adeilad (fydd yn dechrau digwydd cyn diwedd y cyfnod adeiladu), ond bydd yr angen i ddarparu hyfforddiant mewn meysydd sgiliau eraill yn parhau, yn cynnwys addysg a hyfforddiant ar lefel sylfaen a threfniadau ar gyfer ailhyfforddi. Bydd angen gwneud addasiadau mewn da bryd er mwyn canolbwyntio hyfforddiant ar rolau technegol a STEM fydd eu hangen er mwyn gweithredu safle Wylfa Newydd yn effeithlon a diogel. Efallai bydd angen mwy o hyfforddiant mewn sgiliau cysylltiedig â diffoddiadau, megis cynnal a chadw ac ail lenwi tanwydd, ac ar gyfer rolau mwy niferus nag yn ystod y cyfnod adeiladu megis arolygu, rheoli a rolau TGCh.
- 4.2.22 Gallai llai o bwyslais ar sgiliau adeiladu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod adeiladu alluogi ychydig o arallgyfeirio'r capasiti a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddiant adeiladu a pheirianeg, a chynigir cefnogaeth i ariannu hyfforddiant ailosod ac ailgyfarparu a chyfleusterau prentisiaethau i safonau uchel, a dylai hynny wedyn gael ei ehangu. Hefyd, dylai arian fod ar gael i ddatblygu cyrsiau ac i wneud trefniadau eraill i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth sydd yn briodol ar gyfer y cyfnod gweithredol.
- 4.2.23 Mae Atodiad 7A yn dangos mwy o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddibynnol ar ddeialog gyda Horizon.

4.3 Effaith 3: Effeithiau negyddol posibl dadleoli a tharfu ar ysgolion

- 4.3.1 Mae'r lefel o alw ychwanegol am weithwyr mewn sectorau penodol gan Wylfa Newydd yn debygol o achosi prinder llafur difrifol yn y sectorau a'r busnesau hynny. Pan fo galw mawr o'i gymharu â chyflenwad llafur posibl mae'n debygol y bydd ffactor atyniad sylweddol yn cael ei greu o ran llafur mewn cwmnïau sy'n bodoli a bydd hynny yn ei dro yn effeithio ar yr economi leol gan y bydd disgwyl i staff gyda'r sgiliau priodol lenwi'r swyddi gwag yma.
- 4.3.2 Mae'r effeithiau yn cynnwys yr angen i ddenu llafur allanol, oedi o ran recriwtio, colli cynhyrchiant yn gysylltiedig â swyddi gwag heb eu llenwi, costau llafur a recriwtio cynyddol ac effeithiau cymudo hirach a chostau llety uwch mewn rhai achosion. Mewn achosion mwy difrifol, gall hynny gyfyngu ar fuddsoddi a lleihau gallu cwmnïau i arloesi a mabwysiadu technolegau newydd. Mae angen mwy o wybodaeth gan Horizon, ond mae'r effeithiau yn fwy tebygol o ddigwydd pan fo angen nifer sylweddol o weithwyr am gyfnodau cymharol fyr (e.e. 1-2 flynedd). Gall mwy o broblemau godi pan fo gweithwyr yn gorffen eu contractau ac yn dychwelyd i'r farchnad lafur, nid yn

unig oherwydd diweithdra posibl ond hefyd i'w cyn gyflogwyr allai fod yn dymuno eu hailgyflogi fyddai'n golygu byddai'r rhai a gyflogwyd yn eu lle yn colli eu gwaith.

- 4.3.3 Mae problem swyddi gwag a achosir gan brinder sgiliau yn cynyddu'n arbennig o aciwt yng Ngogledd Cymru, ac mae Brexit yn ychwanegu at y pwysau disgwylidig, yn arbennig yn ystod cyfnod adeiladu arfaethedig Wylfa Newydd.
- 4.3.4 Pan fo bylchau mewn cyflogaeth yn digwydd, bydd hynny yn arwain at angen i hyfforddi ac ailsgilio er mwyn amnewid y staff yma.
- 4.3.5 Mewn rhai meysydd mewn perthynas ag addysg a sgiliau mae Horizon yn cynnig monitro, ond mewn nifer o achosion, byddai canfod unrhyw broblem yn digwydd yn rhy hwyr er mwyn rhoi ateb effeithiol ar waith. Gallai hynny hefyd arwain at fethu â darparu adnoddau a threfniadau er mwyn rheoli a defnyddio'r adnoddau hynny pan fo'r angen mewn ffordd amserol a chydnerth.
- 4.3.6 Disgwylir y bydd y mewnlifiad rheolaidd o 1,000 o weithwyr dros dro yn achosi effeithiau o ran dadleoli. Bu i CSYM ysgrifennu at Horizon yn dilyn cam ymgynghori PAC3 yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â rolau ar gyfer y cyfnodau diffodd, yn cynnwys a fyddai hynny yn gyflogaeth rhan amser, llawn amser neu dros dro, a faint o'r swyddi yma y mae'n ddisgwylidig iddynt gael eu cymryd gan bobl leol.
- 4.3.7 Gallai effeithiau sŵn/llwch fod yn aflonyddgar iawn i ysgolion o dan sylw os na roddir camau rhagweithiol ar waith. Hefyd, gallai fod yna risgiau o ran diogelwch os na chymerir camau i sicrhau bod llwybrau diogel i blant i'r ysgol yn cael eu cynnal.

Ymarferion cyflogaeth

- 4.3.8 Heb strategaeth glir a dull cynlluniedig, gallai busnesau ddioddef amhariadau sylweddol a gallai problemau recriwtio ddigwydd ar draws ystod eang o weithgareddau, a hynny yn arwain at effeithiau ar eu cwsmeriaid a'u staff. Gallai hynny gynnwys colli busnes, anawsterau recriwtio a diffyg twf a buddsoddiad.
- 4.3.9 Mae Dogfen 6.3.9 ES Cyfrol C - effeithiau prosiect cyfan At C 1-2 - Atodiad technegol economaidd gymdeithasol paragraff 2.4.10 yn cyfeirio at astudiaeth fanwl ar oblygiadau rhaglen NNB ar sgiliau adeiladu, gan nodi y byddai "prosiect adeiladu gorsaf niwclear yn effeithio'n fwy ar farchnadoedd adeiladu rhanbarthol unigol ble byddant yn cael eu cynnal". Mae hynny yn amlwg yn nodi y gallai effaith lefel uchel y gellir ei briodoli i Wylfa Newydd fod yn debygol.
- 4.3.10 Yn ystod y cyfnod adeiladu bydd yna gyfnodau pryd y bydd niferoedd y gweithwyr ym mhob categori galwedigaethol yn gostwng. Gallai hynny ddigwydd ar adegau amrywiol yn ddibynnol ar y sector, ond bydd hynny yn ffactor sylweddol pan fo'r Prosiect yn cyrraedd 'anterth' ei gyflogaeth. Os bydd y rhai fydd yn colli eu swyddi yn drigolion lleol yn hytrach na llafur mudol, ni fydd hynny yn gwneud y mwyaf o gyflogaeth leol (gan gydnabod yr angen i osgoi ymarferion gwahaniaethol).
- 4.3.11 Yn ystod diffoddiadau, gallai'r angen am weithwyr dros dro arwain at effeithiau sylweddol ar y farchnad lafur os bydd dadleoli yn digwydd.

SAFBWYNT HORIZON

Addysg dan 16

- 4.3.12 Bydd methu â chefnogi addysg ysgol ar Ynys Môn yn cyfyngu ar gyrhaeddiad a chymhelliant pobl ifanc, yn gwaethygu prinder llafur a sgiliau ac yn lleihau cydnerthedd a hyblygrwydd y gweithlu lleol i fodloni anghenion cyflogwyr y gallai dadleoli effeithio arnynt.

Addysg Ôl -16

4.3.13 Bydd methu â chefnogi addysg ôl 16 yn cyfyngu ar gyrhaeddiad a chymhelliant trigolion Ynys Môn yn gwaethygu prinder llafur a sgiliau ac yn lleihau cydnerthedd a hyblygrwydd y gweithlu lleol i fodloni anghenion cyflogwyr y gallai dadleoli effeithio arnynt.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

4.3.14 Bydd methu â chefnogi gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth ar Ynys Môn yn cyfyngu ar gyrhaeddiad a chymhelliant pobl ifanc, yn gwaethygu prinder llafur a sgiliau ac yn lleihau cydnerthedd a hyblygrwydd y gweithlu lleol i fodloni anghenion cyflogwyr y gallai dadleoli effeithio arnynt.

4.3.15 Mae Horizon yn nodi “mae’n amhosibl gwybod beth fydd maint tebygol yr anghenion ôl-lenwi posibl”.

4.3.16 Nid yw Horizon wedi cynnig ymateb digonol i’r mater yma ac mae eu safbwynt yn aneglur. Mae ei Strategaeth Swyddi a Sgiliau yn nodi ei bod yn amhosibl gwybod beth fydd maint unrhyw effeithiau dadleoli, tra bod yr Atodiad Technegol Economaidd Gymdeithasol C1-2 Cyf 6.3.9 paragraff 2.4.31 yn nodi: “Bydd cyfleoedd am swyddi newydd [o ganlyniad i Wylfa Newydd] yn arwain at nifer o wahanol effeithiau. Yr effaith fwyaf amlwg fydd annog gweithwyr presennol i symud o swydd bresennol nad yw’n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd i weithio’n uniongyrchol ar Brosiect Wylfa Newydd.”

Ymarferion cyflogaeth

4.3.17 Mae’r cynigion yn nodi “Bydd WNESS yn helpu gweithwyr i ganfod gwaith newydd pan fyddant yn gadael Wylfa”. Mae hynny i’w groesawu, ond mae’n amlygu absenoldeb strategaeth glir o ran cynllunio olyniaeth ac yn benodol ynghylch sut y bydd trigolion Ynys Môn yn cael eu trin o’u cymharu â rhai o du allan i’r ardal, wrth i’r angen am grefftau/sgiliau gwahanol fynd heibio ‘anterth’ y cyfnod cyflogaeth.

Addysg dan 16

4.3.18 Yn yr Atodiad Technegol Economaidd Gymdeithasol C1-2 Cyf 6.3.9 paragraff 2.4.7 mae Horizon yn cydnabod y cysylltiad rhwng addysg ysgol ac effeithiau dadleoli gan ddyfynnu adroddiad sydd yn nodi⁶: “Disgwyliwyd y byddai cyfraddau gadael o ganlyniad i ymddeol yn cyfyngu ar symudedd pobl brofiadol i ble lleolir y galw. Yn y modd yma, byddai cyfran helaeth o anterth y galw am sgiliau a ragfynegwyd yn cael ei drosglwyddo i gyflenwad sgiliau y rhai sydd ym myd addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd naill ai fel mewnlennwad uniongyrchol i fylchau sgiliau neu ôl-lenwad ar gyfer symudiad pobl brofiadol ar draws sectorau”.

Addysg Ôl -16

4.3.19 Gweler hefyd y pwyntiau uchod yn 0 i 0 sydd hefyd yn ymwneud â’r cysylltiad rhwng addysg ôl 16 ac effeithiau dadleoli.

Gwasanaethau gyrfaoedd, ymgysylltu a chymorth

4.3.20 Mae’r cynigion yn cyfeirio at WNESS yn darparu cymorth ar gyfer ôl-lenwi, ond nid oes ynddynt fanylion defnyddiol.

Camau Iliniaru sydd eu hangen

⁶ Cogent. 2010. Renaissance Nuclear Skills Series: 2: Next Generation - Skills for New Build Nuclear ([Dolen](#))

- 4.3.21 Bydd cynyddu lefel sgiliau trigolion Ynys Môn yn lleihau prinder sgiliau ar gyfer Wylfa Newydd a chyflogwyr y bydd dadleoli yn effeithio arnynt, gan helpu i warchod rhag tarfu ar fusnesau neu anawsterau recriwtio. Felly, mae'r mesurau a gynigir o dan Effeithiau 1 a 2 yn cael eu cynnig hefyd er mwyn lliniaru'r effeithiau yma. Mae'r mesurau yma yn defnyddio dull cysylltiedig ag addysg a sgiliau o liniaru effeithiau negyddol dadleoli, ond efallai y bydd yna effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach fydd angen mathau eraill o liniaru neu ddigolledu.
- 4.3.22 Mae angen cymryd camau rhagweithiol addas ar gyfer ysgolion ble gallai effeithiau sŵn a llwch ddigwydd.
- 4.3.23 Mae Atodiad 7A yn dangos mwy o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddibynnol ar ddeialog gyda Horizon.

5.0 Gofynion sydd yn gyffredin i'r holl gamau lliniaru yn y bennod hon.

- 5.1 Dylai manylion yr holl gamau lliniaru fod yn briodol i'r patrymau cyflogaeth amrywiol fydd yn ymddangos yn ystod pob cam o'r Prosiect, a dylid ystyried ffactorau allweddol megis amseru llwybrau hyfforddiant a nifer a hyd gwahanol rolau. Er enghraifft, er y bydd mynediad at nifer o swyddi cysylltiedig ag adeiladu yn bwysig yn ystod camau cyntaf y cyfnod adeiladu, bydd ystod ehangach o gyfleoedd eraill yn codi yn ystod y cyfnod hwn ac yn parhau i'r cyfnod gweithredol, a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bob un. Yn ogystal ag anghenion newidiol, efallai y bydd angen addasu darpariaeth a ffurf camau lliniaru dros gyfnod o amser a bydd angen diweddarau'n achlysurol, er enghraifft, wrth i gyfryngau digidol greu cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu.
- 5.2 Pryd bynnag fo'n bosibl, argymhellir y dylai'r camau lliniaru arfaethedig cysylltiedig ag addysg a hyfforddiant gael eu darparu gan sefydliadau arbenigol sydd eisoes yn gweithio yn y sector perthnasol. Gallai hynny gynnwys datblygu cychwynnol, darparu a diweddarau ac adnewyddu parhaus fel bo'r angen. Mewn nifer o achosion, efallai y bydd sefydliadau arbenigol yn gallu ymestyn neu addasu eu gweithgareddau er mwyn darparu elfennau o'r cymorth yma heb yr angen i sefydlu ffyrdd cwbl newydd o weithredu, a gallai hynny effeithio ar ddyluniad manwl y camau eu hunain mewn rhai achosion.
- 5.3 Dylai camau lliniaru fod yn gysylltiedig â blaenoriaethau ehangach, megis y rhai a nodir gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ymchwil perthnasol. Mae angen trafodaeth rhwng Horizon, CSYM a rhanddeiliaid eraill megis Colegau Cymru ar y cynlluniau manwl, er mwyn sefydlu dichonolrwydd a goblygiadau cost yn fanylach.

6.0 Effeithiau a chronfa dystiolaeth - Capasiti a Galluogrwydd ysgolion yr Ynys

- 6.1 Disgwylir nifer fawr o bosibl o ddibynyddion gweithwyr mudol yn ystod Prosiect Wylfa Newydd. Mae Horizon wedi darparu ciplun o niferoedd y dibynyddion disgwyliedig yma yn ystod 'anterth' y gwaith adeiladu, sef 220, ac yn ystod y cyfnod gweithredol mae'n disgwyl 31 ar unrhyw adeg penodol. Cwestiynir sail yr amcangyfrifon yma, ond ni ellir gwybod beth fydd yr union nifer ymlaen llaw. Hefyd, nid yw'n hysbys beth fydd y niferoedd yn ystod adegau eraill y cyfnod adeiladu neu beth fydd cyfradd y trosiant - mae teuluoedd yn annhebygol o aros drwy gydol y cyfnod adeiladu, er enghraifft, oherwydd bod y gofynion swyddi yn newid yn gyflym a bydd y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn cael eu cyflogi gan gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi am gyfnod eu contractau yn unig.

- 6.2 Mae cynnal addysg o ansawdd uchel tra'n gwasanaethu dibynyddion ychwanegol gweithwyr mudol yn her i CSYM, yn bennaf o ran cyfleusterau ffisegol a staff. Mae CSYM yn statudol rhwymedig o ran darpariaeth addysgol ac mae'n rhaid iddo ddefnyddio dull cynlluniedig.
- 6.3 Mae Horizon yn derbyn cyfrifoldeb am liniaru effeithiau dibynyddion gweithwyr mudol. Mae wedi asesu capasiti ffisegol ysgolion i'r dyfodol, ac wedi canfod y bydd yna ddigon o gapasiti drwy gymryd mân gamau yn unig, ond mae'n ymddangos bod y canfyddiad hwn yn seiliedig ar hen wybodaeth. Mae'n ymddangos nad yw HORIZON wedi asesu'r effeithiau ehangach, yn cynnwys yr effaith ar addysg dysgwyr eraill neu ar gapasiti addysgu.
- 6.4 Mae unrhyw ddiffyg capasiti o ran llefydd ysgol yn achosi problemau difrifol i'r ysgolion dan sylw, i'r awdurdod lleol ac yn arbennig i'r plant a'u rhieni/gofalwyr. Gallai hynny gynnwys mwy o amser i wneud penderfyniadau, mwy o deithio, gorlenwi, amharu ar amserlenni, mwy o gostau gweinyddol, straen ar athrawon, ac apeliadau posibl gan rieni/gofalwyr. Hefyd, bydd llwyth gwaith staff addysgu a'r rhai sydd yn ymwneud â rheoli capasiti yn cynyddu. Os bydd paratoi gwael yn arwain at angen i gymryd camau brys, mae'n debygol y bydd yr holl broblemau yma yn fwy aciwt.
- 6.5 Mae Tabl1 yn dangos sut y mae'r effeithiau wedi cael eu hasesu ynghyd â chrynodebau o'r rhwymedigaethau a'r camau lliniaru a gynigir.

Effaith	Disgrifiad cryno	Gradd Effaith y Cyngor	Lliniaru drwy rwymedigaeth		Gofyniad lliniaru	
			Cynnig gan Horizon	CSYM	Cynnig gan Horizon	CSYM ychwanegol
4	Prinder capasiti ffisegol i wasanaethu dibynyddion gweithwyr mudol	Negyddol (sylweddol)	Derbyn cyfrifoldeb ond yn rhagdybio na fydd angen camau lliniaru.	Cyfrifoldeb statudol i ddarparu capasiti, ond yn rhwymedig i hawlio costau digolledu os gellir priodoli'r achos i gorff cyfrifol.	Cynnig Monitro	Ymestyn capasiti ble rhagdybir bydd prinder
5	Prinder staff er mwyn darparu addysg o ansawdd uchel i ddibynyddion gweithwyr mudol	Negyddol (sylweddol)	Nid yw'n cydnabod bod hynny yn broblem.	Mae lefelau staffio yn bennaf yn gyfrifoldeb ar lefel ysgol, ond CSYM sydd yn darparu cyllidebau ysgol. Mae yna argymhellion mewn perthynas ag uchafswm cymhareb disgyblion/athrawon	Dim	Angen mwy o staff addysgu a chynorthwyol. Atgyfnerthu'r capasiti addysgu cyffredinol er mwyn gwrthbwysu'r risg o brinder staff.
6	Darparu gwasanaethau trochi'r Iaith Gymraeg ar gyfer dibynyddion gweithwyr mudol sydd newydd gyrraedd	Negyddol (sylweddol)	Cydnabod peth cyfrifoldeb	Mae'r gwasanaethau yn rhan sefydledig o drefniadau addysgol CSYM er mwyn bodloni amcanion Llywodraeth Cymru.	Cynnig cymorth a monitro cyfyngedig.	Angen mwy o staff trochi arbenigol. Canolfan newydd ar gyfer trochi cynradd a chyfleusterau ychwanegol ar

Efaith	Disgrifiad cryno	Gradd Efaith y Cyngor	Lliniaru drwy rwymedigaeth		Gofyniad lliniaru	
			Cynnig gan Horizon	CSYM	Cynnig gan Horizon	CSYM ychwanegol
						gyfer ysgolion uwchradd. Darpariaeth ychwanegol ar gyfer trefniadau i rai sydd â sgiliau iaith Saesneg gwan
7	Effeithiau ar addysg eraill o ganlyniad i ddibynyddion gweithwyr mudol	Negyddol (sylweddol)	Nid yw'n cydnabod bod hynny yn broblem.	Dim cynsail amlwg	Dim	Atgyfnerthu y capasiti addysgu yn gyffredinol
8	Efaith ar ddarpariaeth anghenion arbennig	Negyddol (sylweddol)	Nid yw'n cydnabod bod hynny yn broblem.	Cyfrifoldeb statudol i ddarparu capasiti, ond yn rhwymedig i hawlio costau digolledu os gellir priodoli'r achos i gorff cyfrifol.	Dim	Capasiti ychwanegol

Tabl 1: Aseiad o effeithiau a chrynodebau o'r rhwymedigaethau a'r camau lliniaru a gynigir

7.1 Effaith Leol 4: Capasiti ffisegol i wasanaethu dibynyddion gweithwyr mudol

- 7.1.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed. **Mae'r deddfau perthnasol yn cynnwys Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999 a Deddf Plant 1989.**
- 7.1.2 Mae unrhyw ddiffyg capasiti ffisegol o ran llefydd ysgol yn achosi problemau difrifol i'r ysgolion dan sylw, i'r awdurdod lleol ac yn arbennig i'r rhieni a'r plant eu hunain. Gallai hynny gynnwys oedi o ran gwneud penderfyniadau, mwy o deithio, gorlenwi, amharu ar amserlenni, mwy o gostau gweinyddol, straen ar athrawon, ac apeliadau posibl gan rieni/gofalwyr, deilliannau addysgol gwaeth, defnydd llai effeithlon o adnoddau, diffyg cynaliadwyedd, amharu at gynlluniau moderneiddio CSYM.
- 7.1.3 Yn ei lythyr dyddiedig 30.11.17 bu i CSYM gynghori Horizon bod yna ordanysgrifio mewn ysgolion cynradd yn barod ar draws yr Ynys. Mae'r cynnydd rhagdybiedig yn y galw am lefydd mewn ysgolion hyd at 2025 yn golygu y bydd angen gweithredu ar y cynigion i liniaru yn erbyn effeithiau galw cynyddol seiliedig ar gyflogaeth cysylltiedig â'r Prosiect ar adnoddau'r Awdurdod Addysg. [7.16]
- 7.1.4 Hefyd gallai effeithiau gynnwys anawsterau o ran bodloni Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru⁷. Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd eisoes wedi eu hadnabod, yn ogystal ag hadnabod disgyblion na chlustnodwyd bod ganddynt AAA o'r blaen, a darparu ar eu cyfer. Ni all awdurdodau derbyn wrthod derbyn plant oherwydd nad oes ganddynt ddatganiad anghenion addysgol arbennig, neu os ydynt yn y broseso gael eu hasesu. Yn Neddf Addysg 1996 mae yna ddisgwyliid amlwg i ddisgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig gael eu cynnwys mewn ysgolion prif lif. Ni ddylai dymuniad rhieni i'w plentyn sydd ar ddatganiad gael ei addysgu yn y prif lif gael ei wrthod dim ond yn y lleiafrif bychan o'r achosion pryd y byddai cynnwys y plentyn yn anghydnaws ag addysgu plant eraill yn effeithlon.
- 7.1.5 Mae'n ofynnol i CSYM ddarparu 10 awr o addysg o ddechrau'r tymor sydd yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed. Mae'r ddarpariaeth addysg feithrin ar hyn o bryd wedi cyrraedd ei lawn gapasiti ac mae Horizon yn awgrymu y gallai tua 20 o'r plant yma fod mewn oedran meithrin, a byddai hynny yn creu diffygion o ran cyllid a chapasiti. Yn ychwanegol at ei werth addysgol uniongyrchol, mae gofal plant yn alluogwr economaidd sydd yn helpu rhieni a gofalwyr i gael mynediad at waith ac i aros mewn gwaith, a byddai diffygion yn effeithio ar rieni sy'n gweithio, ac o bosibl yn cyfyngu ar gyflogaeth i drigolion Ynys Môn.
- 7.1.6 Yn ogystal â dibynyddion gweithwyr mudol fyddai'n cyrraedd i gymryd swyddi gyda Horizon neu ei gadwyn gyflenwi, mae'n debygol y bydd yna fwy o weithwyr mudol yn dod i'r Ynys er mwyn llenwi'r swyddi gwag a achosir gan ddadleoli swyddi o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd. Hefyd mae'n bosibl y bydd gweithwyr mudol yn y ddau gategori yn penderfynu aros ar Ynys Môn pan fo eu swyddi yn Wylfa Newydd yn dod i ben, ac yn penderfynu cael mwy o blant fydd angen gwasanaethau addysg a throchi o bosibl.

SAFBWYNT Horizon

⁷Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ([Dolen](#))

- 7.1.7 Safbwynt Horizon yw nad oes yna broblem a bod capasiti dros ben mewn cyfleusterau ffisegol rhai ysgolion ar Ynys Môn yn debygol o fod yn ddigon.
- 7.1.8 Mae Horizon yn cydnabod y posibilrwydd y bydd niferoedd uwch o blant yn cyrraedd ac mae'n awgrymu monitro hynny, ond nid yw hynny yn ddigonol os bydd angen creu cyfleusterau newydd a recriwtio staff ychwanegol, ac nid yw hynny yn dderbyniol yn hytrach na dull cynlluniedig oherwydd mai'r canlyniad fydd rhy ychydig yn rhy hwyr. Nid yw'n dderbyniol, fel mae Horizon yn ei awgrymu, i ganiatáu i effeithiau ddigwydd ac yna ceisio eu lliniaru yn arbennig pan allai'r camau lliniaru eu hunain gymryd amser i'w darparu. Mae darpariaeth addysg yn cael ei gynllunio ar sail rhagfynegiadau ac nid oes dim rheswm pam na ddylai hynny gael ei wneud yn yr achos yma. Nid yw dull Horizon yn ddull cyfrifol mewn perthynas ag addysg plant. Hefyd dylid nodi y bydd y gofyniad am niferoedd mawr o lefydd yn ystod y cyfnod adeiladu yn debygol o godi ar fyr rybudd ac o ddigwydd am wahanol gyfnodau o ran amser.
- 7.1.9 Cyfeirir yng nghynigion Horizon at ffactorau eraill allai effeithio ar y capasiti fydd ar gael yn y dyfodol, megis y cylch economaidd neu bolisïau'r llywodraeth, ac awgrymir petai problemau capasiti yn codi o ganlyniad i "effeithiau cronol yn ystod y prosiect" y byddai'n ddisgwyliedig i Horizon "rannu baich unrhyw gamau lliniaru ychwanegol".
- 7.1.10 Mae Horizon yn darparu'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â niferoedd dibynyddion gweithwyr mudol disgwyliedig.
- 7.1.11 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Mae Tabl C14 yn dangos bod Horizon yn rhagfynegi 220 o ddibynyddion gweithwyr o'r tu allan yn ystod anterth y gwaith adeiladu.

Table C1-14 Breakdown of non-home-based workers and dependants during peak construction

Additional population	Number of people
Non-home-based workers	7,000
Estimated partners	285
Estimated dependants	220
Total	7,505

- 7.1.12 Nodir na ddarperir gwybodaeth am y cyfnodau cyn ac ar ôl yr anterth, na chyfradd y corddi disgwyliedig – fydd yn effeithio ar y cyfnod y bydd pob plentyn angen ei addysgu.
- 7.1.13 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Byddai 25% o weithwyr proffesiynol o'r yu allan, 4% o weithredwyr (er enghraifft gweithwyr sifil; a gweithwyr mecanyddol a thrydanol) a 60% o weithwyr gweithredol (fyddai'n cyrraedd yn ystod y gwaith adeiladu) yn dod â theuluoedd i'r ardal [1.5.48]
- 7.1.14 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Mae Tabl C1-18 yn nodi y gallai cyfnod gweithredol Prosiect Wylfa Newydd arwain at gynnydd o 199 yn y boblogaeth leol, gyda 31 ohonynt yn ddibynyddion.
- 7.1.15 Mae Horizon yn darparu'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â rhagfynegiadau capasiti.

7.1.16 Dogfen Cyf 8.23 Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau: “Mewn perthynas â llefydd mewn ysgolion, er bod yna gapasiti mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd, efallai na fydd hynny yn wir yn y dyfodol. Byd CSYM yn monitro cofrestrïadau” [2.3.47].

7.1.17 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Disgwylir i'r capasiti dros ben mewn ysgolion cynradd ostwng o ganlyniad i'r rhaglen foderneiddio o 11% (630 o lefydd dros ben) yn 2016 i 5% (288 o lefydd dros ben) yn 2021. [01/03/2014]

7.1.18 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Mae Tabl C1-15 yn dangos amcangyfrifon o gapasiti ysgolion cynradd ar ôl derbyn dibynyddion gweithwyr o'r tu allan, gan ddangos bod capasiti o dros 10% yn dal i fod yn ardaloedd a ddangosir.

Table C1-15 Primary school capacity (%) assessment

Area	% of capacity used currently	Spare places currently	Revised % of capacity used -reflecting new demand
Anglesey North	83.2	189	89.8
Anglesey South	86.7	353	88.3
Anglesey West	94.4	152	96.8
Menai Mainland	82.5	966	83.1
KSA	86.1	1,657	88.0

7.1.19 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Manylion am effaith y galw am ysgolion uwchradd - mae'n nodi “dim problemau yn bodoli” (1.5.61. [1.5.59 – 1.5.62]

7.1.20 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Mae Tabl C -16 yn dangos amcangyfrifon o gapasiti ysgolion uwchradd ar ôl derbyn dibynyddion gweithwyr o'r tu allan, gan ddangos bod capasiti o dros 10% yn dal i fod yn ardaloedd a ddangosir.

Table C1-16 Secondary school capacity (%) assessment

Area	% of capacity used currently	Spare places currently	Revised % of capacity used - reflecting new demand
Anglesey North	52.5	461	60.1
Anglesey South	84.5	337	86.5
Anglesey West	74.6	514	77.8
Menai Mainland	77.8	1,199	78.4

7.1.21 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Galw am addysg. Ystyrir nad yw'r effaith ar ysgolion Cynradd/Uwchradd o'r rhagfynegiadau o gynnydd yn y boblogaeth yn arwyddocaol. [1.5.127-1.5.129]

7.1.22 Dogfen Cyf 8.22: Adroddiad Cydraddoldeb EqIA: Pryderon wedi eu mynegi am uned anghenion dysgu ychwanegol ac ymateb Horizon. [pp32]

7.1.23 Mae cyflwyniadau DCO Horizon yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol ellid ystyrid eu bod yn berthnasol:

- 7.1.24 Datganiad Cynllunio Cyf 8.1: Er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol, bydd Horizon yn sefydlu cronfa er mwyn cefnogi ystod o fentrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fydd yn gysylltiedig â chyfnodau adeiladu a gweithredol y Prosiect....sydd yn gynwysedig yn y Gronfa Effaith Gymunedol. [7.4.57] t169, 170
- 7.1.25 Strategaeth Swyddi a Sgiliau Cyf 8.3: Mae Horizon yn rhwymedig i fuddsoddi mewn seilwaith sgiliau sydd yn rhoi'r sgiliau i bobl Ynys Môn a'r siroedd amgylchynol fydd eu hangen er mwyn bod yn gymwys i weithio ar y Prosiect - a hefyd mewn meysydd ble mae dadleoli yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol." [2.3.3]
- 7.1.26 Dogfen Economeg Cymdeithasol D3 - 6.4.3: "Byddai'r Gronfa Effaith Gymunedol yn darparu arian ar gyfer materion lleol, megis ysgolion a chyfleusterau hamdden. Cronfa effaith Gymunedol (sicrhawyd drwy gynllunio/Rhwymedigaethau Adran 106). Byddai arian yn cael ei ryddhau'n ddibynnol ar fodloni nifer o amodau, na chytunwyd arnynt hyd yma". [Tabl 3-6 3.6.4]
- 7.1.27 Dogfen 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Monitro cofrestriadau ysgol gan CSYM. Bydd Horizon yn darparu arian drwy CIF os bydd problemau yn codi [1.6.16]
- 7.1.28 Dogfen 8.17 Datganiad Cynaliadwyedd: Gellid defnyddio'r Gronfa Effaith Gymunedol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau posibl ar gyfleusterau addysg [5.10.16]
- 7.1.29 Dogfen Cyf 8.23 Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau: "Petai problemau lleol yn codi pan fo ceisiadau yn cael eu cyflwyno am lefydd mewn ysgolion sydd yn llawn ac y gall CSYM ddangos natur yr effaith fyddai yn deillio o hynny (e.e. diffyg dros dro yn y cyllid, costau ychwanegol ar gyfer prosesau apelio etc.) bydd Horizon yn darparu arian er mwyn talu am hynny drwy'r Gronfa Effaith Gymunedol" [2.3.47]. Ailadroddwyd yn 3.3.46, 4.3.35, a 5.3.33 a'r datganiad Cynllunio yn [7.4.56]

Camau Iliniaru sydd eu hangen

- 7.1.30 Ar hyn o bryd mae gan nifer o ysgolion gapasiti dros ben yn eu cyfleusterau, ond mae CSYM yn rhwymedig i leihau hynny fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol i ddiweddarau a moderneiddio'r stoc ysgolion o fewn cyllidebau cyfyngedig.
- 7.1.31 Ar y lefel y mae Horizon yn ei hamcangyfrif, mae'n bosibl y bydd cyfanswm y llefydd ar draws y system ysgolion yn ddigonol yn gyffredinol ond mae'n debygol y bydd yna broblemau capasiti mewn ardaloedd penodol. Mae'r cyfrifiad isod yn tybio y gellir cynnwys 75% o ddibynyddion gweithwyr mudol fydd yn cyrraedd i weithio ar y Prosiect yn yr ystâd ysgolion bresennol, ond bydd hynny yn ddibynnol ar ble fydd diffygion yn digwydd a ble fydd teuluoedd mudol yn dewis byw, oedran ac anghenion y dibynyddion a ffactorau allanol eraill megis tueddiadau demograffig. Hefyd, bydd angen i Horizon ddarparu mwy o wybodaeth am sut mae wedi cyfrifo ystod y llefydd ychwanegol posibl a'r ffactorau sydd yn effeithio ar hynny, yn ogystal ag effeithiau posibl dadleoli.
- 7.1.32 Gellir ond datblygu rhagfynegiad manwl o'r cymorth fydd ei angen drwy drafodaeth rhwng Horizon a CSYM ynghylch cynlluniau i aildrefnu a moderneiddio ysgolion gan ystyried effaith Wylfa Newydd, ond hefyd gan gydnabod y goblygiadau a chyfrifoldebau ehangach ar awdurdodau lleol i ddefnyddio dull cynlluniedig o aildrefnu capasiti, rheoli cyllidebau ysgolion a chynnal capasiti ar

gyfer amrywiadau lleol tymor byr o ran galw. Mae cynlluniau CSYM ar gyfer y cyfnod hyd at 2026 yn cael eu hystyried. Ei amcanion yw sicrhau:

- a) amgylcheddau dysgu fydd yn galluogi gweithredu strategaethau yn llwyddiannus er mwyn gwella a chyflawni deilliannau addysgol gwell;
- b) gwell economi ac effeithlonrwydd ar gyfer amgylcheddau dysgu drwy ddefnyddio adnoddau yn well
- c) system addysg gynaliadwy sydd yn bodloni safonau adeiladu cenedlaethol ac sydd yn lleihau costau cyson ac ôl troed carbon adeiladau addysg.

7.1.33 Mae ystyriaethau eraill ar gyfer cynlluniau CSYM ar gyfer y cyfnod hyd at 2026 yn cynnwys, er enghraifft:

- a) Cynyddu defnydd ysgolion ar gyfer budd cymunedol megis ystafelloedd ar gyfer defnydd cymunedol, llyfrgell sefydlog neu fannau gollwng/casglu ar gyfer llyfrgelloedd symudol a gwasanaethau hunangymorth awtomatig ar gyfer busnes y cyngor (er mwyn gwella cydlyniant cymunedol a gwneud y mwyaf o adnodau CSYM y tu allan i oriau a thymor yr ysgol).
- b) Datblygu darpariaeth cofleidiol ar safle unigol ar gyfer pob un dan 11 oed, yn cynnwys babanod a brodyr a chwiorydd ar rai safleoedd, er enghraifft darpariaeth meithrin ar gyfer plant 0-3 oed ar safle ysgolion newydd neu addasedig er mwyn galluogi plant i gael mynediad at 5 tymor o addysg rhan amser cyn dechrau yn llawn amser yn y Mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed.

7.1.34 Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos senarios posibl pan allai capasiti ychwanegol fod yn angenrheidiol:

- a) Efallai bydd gan ysgol gynradd gapasiti annigonol ar gyfer dosbarthiadau derbyn ond digon ym mhob dosbarth arall. Efallai bod gan yr ysgol hon le wrth ymyl y dosbarth derbyn presennol sydd yn cael ei danddefnyddio ac y gellid ei addasu, a gallai hynny olygu addasu drysau, addurno, ffenestri, gwasanaethau etc. Efallai y bydd angen gwneud gwaith adeiladu er mwy addasu'r gofod yma.
- b) Efallai y bydd ysgol gynradd angen mwy o ofod dosbarth ond bod ganddi ardal gymunol sydd yn fwy na'r angen. Gallai cynllun cost effeithiol gynnwys adeiladu gofod cymunol newydd neu neuadd, ac ailwampio'r gofod cymunol blaenorol fel ystafell ddosbarth fwy.
- c) Efallai bod gan ysgol uwchradd ddigon o gapasiti dosbarthiadau ond capasiti annigonol ar gyfer labordai dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth, fydd yn golygu y bydd angen dosbarth/labordy newydd, offer newydd ac ail-leoli offer rhwng y gofod newydd a'r labordai neu weithdai presennol.

7.1.35 Ar hyn o bryd mae yna ddeg ysgol feithrin ar Ynys Môn a deellir bod pob un yn llawn. Gan ddefnyddio amcangyfrif Horizon o 220 o blant dibynnol yn ystod 'anterth' y cyfnod adeiladu, gallai tua 20 o'r rhain fod mewn oedran meithrin. Mae angen archwilio'r potensial i ymestyn capasiti ar safleoedd presennol ac mae angen ystyried mecanweithiau ar gyfer ariannu oherwydd bod y rhan fwyaf o'r meithrinfeydd yn cael eu rhedeg yn breifat.

7.1.37 Nid yw Horizon wedi asesu lefel y swyddi dadleoli, a gallai hynny achosi mwy o deuluoedd mudol dros dro sydd â dibynyddion adran ysgol sydd angen addysg. Hefyd, nid yw'r posibilrwydd y bydd gweithwyr mudol yn aros ar yr Ynys ar ôl i'w

cyflogaeth gyda'r Prosiect ddod i ben wedi cael ei ystyried, a gallai hynny gynyddu'r camau lliniaru sydd eu hangen.

Y Gronfa Dystiolaeth

7.1.37 Mae ffigyrau Horizon a roddir yn Atodiad Technegol Economaidd Gymdeithasol Cyf 6.3.9 Tabl 2-8 (tudalen 22) ar gyfer y galw cyffredinol am weithwyr yn Wylfa Newydd yn ystod 'anterth' y gwaith adeiladu yn caniatáu rhoi amcangyfrif o'r 7,000 o weithwyr o'r tu allan yn ôl galwedigaeth yn ystod y cyfnod adeiladu, fel y dangosir hynny isod. Bydd cymhwyso hynny yn ei dro i'r canrannau y mae Horizon yn amcangyfrif fydd yn dod â theuluoedd o dan pob categori galwedigaeth yn creu ffigwr o 505 o blant dibynnol ar yr adeg yma.

	Nifer y gweithwyr	...lleol	...o'r tu allan	% a Nifer yr amcangyfrif fydd yn dod â theuluoedd	Nifer yr aelwydydd â theuluoedd	Nifer y plant dibynnol (DCCZ)	Nifer y plant dibynnol (Ynys Môn)
Goruchwylio/rheoli	1998	237	1761	25%	440	340	289
Gwasanaethau safle, diogelwch a staff clerigol	902	689	213	60%	128	99	84
Peirianeg sifil ('sifil')	3069	675	2394	4%	96	74	63
Gweithwyr mecanyddol a thrydanol	2580	208	2372	4%	95	73	62
Gweithredwyr	451	191	260	4%	10	8	7
Cyfansymiau	9000	2000	7000		769	594	505

7.1.38 Nid yw'r cyfrifiad uchod yn cynnwys dibynyddion gweithwyr mudol fydd yn cyrraedd i lenwi swyddi gwag fydd yn deillio o ddadleoli swyddi o ganlyniad i'r Prosiect, nac o ganlyniad i weithwyr mudol yn aros ar yr Ynys ar ôl eu cyflogaeth gyda'r Prosiect ddod i ben, allai gynyddu'r camau lliniaru sydd eu hangen.

7.1.39 Gall y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan Horizon fod yn amcangyfrif rhy isel am resymau eraill, er enghraifft:

- Gallai natur wledig yr ardal a'i hamgylchedd deniadol annog mwy o weithwyr i ddod â'u teuluoedd.
- Gallai effeithiau Brexit ar weithwyr o du allan i'r DU gynyddu'r gyfran o lafur domestig o'i gymharu â'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd gan Horizon.

7.1.40 Mae newidiadau yn y cyfraddau genedigaethau yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi arwain at fwy o gapasiti mewn ysgolion uwchradd, ond mae'r duedd hon yn

newid i'r cyfeiriad arall a disgwylir y bydd cofrestriadau yn cynyddu, a bydd hynny yn lleihau capasiti.

- 7.1.41 Mae archwiliad o bortffolio adeiladau ysgolion CSYM yn dangos bod yna ddiffygion difrifol ar nifer o safleoedd ac adeiladau. Yn benodol, mae yna broblemau cynnal a chadw a materion iechyd a diogelwch brys [e.e. cyflenwadau nwy, systemau gwresogi] fydd yn "achosi amheuaeth ynghylch dichonolrwydd hirdymor rhai o'n hysgolion presennol". Mae'r gwaith cynnal a chadw ar hen adeiladau ysgolion, a chynaliadwyedd y seilwaith yma yn anghynnaladwy.
- 7.1.42 Hefyd gweler Atodiad 7A sydd yn nodi rhestr o dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad yma.

7.2 Effaith Leol 5: Capasiti staff er mwyn darparu addysg o ansawdd uchel i ddibynyddion gweithwyr mudol

- 7.2.1 Mae cronfa dystiolaeth CSYM yn dangos yn eglur bod yna gysylltiadau sefydledig rhwng cyrhaeddiad addysgol a nifer ac ansawdd athrawon, hyfforddwyr neu staff cynorthwyol. Hefyd dangoswyd bod defnyddio mwy o athrawon llanw neu athrawon ar gontractau tymor byr yn effeithio ar addysg plant a bod hynny yn arwain at gyrhaeddiad addysgol is ar bob lefel. Yn y tymor hirach, gallai cyrhaeddiad addysgol is arwain at wendid yn sgiliau'r farchnad lafur ac achosi aflonyddwch i fusnesau, mwy o broblemau recriwtio a chynnydd mewn diweithdra lleol.
- 7.2.2 Os na ddarperir digon o gapasiti ysgol ar gyfer dibynyddion gweithwyr o'r tu allan mewn ffordd sydd yn gydnaws â system addysg ragorol, byddir yn effeithio'n niweidiol ar addysg y plant yma a phlant eraill. Mae'n bwysig nodi y disgwylir cynnydd mewn cofrestriadau ysgolion uwchradd yn ystod y 5 mlynedd nesaf, a bydd angen recriwtio ychwanegol ar gyfer tua 25-30 o athrawon newydd erbyn 2023 yn syml am resymau demograffig, a bydd hynny yn rhoi mwy o bwysau cefndirol ar recriwtio a chadw staff yn ystod y cyfnod adeiladu.
- 7.2.3 Mae'r effeithiau yn cynnwys meintiau dosbarth mawr, llwythi gwaith mawr, athrawon yn addysgu pynciau nad ydynt wedi arbenigo ynddynt, straen ar athrawon eraill, penaethiaid yn treulio llai o amser yn cyflawni eu prif rôl, mwy o faich gweinyddol a phroblemau o ran cynllunio dilyniant. Yn y tymor hirach, mae cyrhaeddiad addysgol is yn arwain at wendid yn sgiliau'r farchnad lafur ac yn achosi aflonyddwch i fusnesau, mwy o broblemau recriwtio, dilyniant gyrfa cyfyngedig a chynnydd mewn diweithdra lleol.
- 7.2.4 Mae'r pwysau ar athrawon yn bryder penodol, fydd o bosibl yn effeithio ar forál ac yn gwaethygu'r problemau recriwtio a chadw, fydd yn arwain at golli mwy o aelodau staff. Heb gymryd y camau lliniaru priodol, gallai pwysau ar staff arwain at anhawster o ran sicrhau niferoedd llawn o athrawon cymwys ar Ynys Môn fydd yn arwain at ddeilliannau addysgol gwannach i nifer fawr o ddysgwyr.
- 7.2.5 Mae dystiolaeth yn dangos bod effeithiau yn fwy tebygol o fod yn fwy aciwt mewn ysgolion llai oherwydd yr heriau penodol sydd yn eu hwynebu, ac mae gan hanner ysgolion cynradd Ynys Môn (23) lai na 100 o ddisgyblion.
- 7.2.6 Bydd yr effeithiau hynny yn cael eu chwyddo os bydd paratodau gwael yn arwain at yr angen i gymryd camau tymor byr, a byddir yn ysgwyddo mwy o gostau mewn cysylltiad ag apeliadau a mesurau dros dro.

SAFBWYNT HORIZON

7.2.7 At ei gilydd nid yw cynigion Horizon yn delio â'r mater yma.

7.2.8 Mae cyflwyniadau DCO Horizon yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol ellid ystyrid eu bod yn berthnasol:

- a) 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Galw am addysg. Ystyrir nad yw'r effaith ar ysgolion Cynradd/Uwchradd o'r rhagfynegiadau o gynnydd yn y boblogaeth yn arwyddocaol. [1.5.127-1.5.129]
- b) 6.3.1 C1 Economeg gymdeithasol (Adolygiad 1.0): Manylion am effaith y galw am ysgolion uwchradd - mae'n nodi "dim problemau yn bodoli" (1.5.61).

Camau lliniaru sydd eu hangen

7.2.9 Er mwyn bodloni anghenion staffio ychwanegol ac er mwyn lliniaru ar y tarfu fydd yn cael ei achosi gan blant na fyddant yn siarad Cymraeg neu Saesneg o bosibl ar addysg eraill, mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen atgyfnerthu'r gweithlu addysgu. Mae recriwtio a chadw athrawon, yn arbennig mewn ardaloedd ble mae prinder, yn her fawr, ac mae angen cymryd camau'n gynnar oherwydd yr amseroedd arwain hir sydd yn gysylltiedig â hyn. Mae defnydd cynyddol o athrawon llanw, neu fesurau eraill megis symud athrawon yn amlach rhwng gwahanol ddogfenniadau yn effeithio'n niweidiol ar ddeilliannau dysgwyr, ac ni ddylai hynny fod yn rhan o'r camau lliniaru.

7.2.10 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen dau ddull er mwyn lliniaru'r effeithiau a nodwyd:

- a) Cyflogi'r staff ychwanegol sydd ei angen er mwyn ymestyn y gweithlu'n ddigonol er mwyn addysgu dibynyddion ychwanegol gweithwyr mudol. Mae mwy o fanylion wedi eu nodi isod.
- b) Cryfhau'r gweithlu presennol mewn ffyrdd sydd yn galluogi i'r camau uchod ac eraill a gynigir yn y ddogfen hon gael gwell gobaith o lwyddo.

7.2.11 Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi camau lliniaru a gynigir er mwyn atgyfnerthu'r gweithlu addysgu.

- a) Uwchraddio ystafelloedd staff ac ardaloedd staff yn unig
- b) Buddion chwaraeon/hamdden i athrawon
- c) Cymhelliannau i addysgu mewn ysgolion uwchradd
- d) Atgyfnerthu'r addysgu mewn ysgolion cynradd
- e) Cyfrannu at hyfforddiant athrawon cychwynnol
- f) Gwella sgiliau y gweithlu addysgu presennol
- g) Offer hyfforddi a mentora ar-lein

7.2.12 Mae'r un mesurau yn berthnasol i Effaith Leol 4 (gweler isod) ac i gamau lliniaru yn LIR Addysg a Sgiliau, ac mae mwy o fanylion am bob un o'r uchod yn cael ei nodi yn y ddogfen honno.

7.2.13 Mae data a ddarparwyd gan Horizon ar gyfer maint blynyddol y gweithlu yn gyffredinol yn ystod y cyfnod adeiladu (Tabl 2-1 Strategaeth Swyddi a Sgiliau Cyf 8.3) wedi ei uno ag amcangyfrif CSYM sy'n seiliedig ar y wybodaeth honno, sef 505 o ddibynyddion gweithwyr mudol yn ystod yr 'anterth', wedi cael ei ddefnyddio

i amcangyfrif nifer dibynyddion gweithwyr mudol ym mhob blwyddyn, ac amcangyfrif o nifer yr athrawon fydd eu hangen - gweler tabl 3 isod:

	Blwyddyn (cyfnod adeiladu)										Cyfartaleddau
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	
Amcangyfrif o nifer y dibynyddion	8	16	117	272	326	427	505	388	179	54	
Dibynyddion oed meithrin	1	2	13	30	36	47	56	43	20	6	25
Dibynyddion oed cynradd	3	6	45	106	127	166	196	151	69	21	89
Dibynyddion oed uwchradd	3	6	45	106	127	166	196	151	69	21	89
Nifer yr athrawon cynradd	0.2	0.4	2.8	6.5	7.8	10.2	12.0	9.2	4.3	1.3	4.2
Nifer yr athrawon uwchradd	0.2	0.5	3.6	8.5	10.2	13.4	15.8	12.1	5.6	1.7	5.6

Tabl 3: Amcangyfrif o nifer dibynyddion gweithwyr mudol ym mhob blwyddyn ac amcangyfrif o niferoedd yr athrawon sydd eu hangen

7.2.14 Nid yw Horizon ychwaith wedi asesu lefel y swyddi dadleoli, a gallai hynny ddenu mwy o deuluoedd mudol dros dro sydd â dibynyddion oedran ysgol sydd angen addysg.

7.2.15 Mae angen trafod camau lliniaru penodol â Horizon. Dylai'r rhan gynnwys ystyried dibynyddion oedran meithrin, cynradd ac uwchradd a dylent sicrhau bod pob effaith niweidiol yn cael ei leihau cymaint â phosibl.

Y Gronfa Dystiolaeth

7.2.16 Mae yna gysylltiad sydd wedi ei hen sefydlu rhwng cyrhaeddiad isel mewn addysg a phrinder athrawon, hyfforddwyr neu staff ategol sydd â chymwysterau digonol mewn swyddi parhaol. Hefyd dangoswyd bod defnyddio gormod o athrawon llanw neu athrawon ar gontractau tymor byr yn effeithio ar addysg plant a bod hynny yn arwain at gyrhaeddiad addysgol is ar bob lefel.

7.2.17 Ar hyn o bryd mae yna brinder cenedlaethol o athrawon mewn rhai meysydd pynciau sydd yn bwysig mewn perthynas â'r Prosiect yma yn cynnwys pynciau cyfrwng Cymraeg a STEM, ac mae honno yn broblem heriol iawn y mae nifer o asiantaethau yn gweithio ar ei datrys. Gall yr heriau fod yn fwy aciwt ar lefel uwchradd pan fo arbenigedd pwnc yn bwysig; mewn nifer o ardaloedd yn y DU mae yna achosion niferus o athrawon gwyddoniaeth yn addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) mewn pynciau sydd y tu allan i'w harbenigedd pwnc ac achosion o hynny ar lefel TGAU.

7.2.18 Hefyd gweler Atodiad 7A sydd yn nodi rhestr o dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad yma.

7.3 Effaith Leol 6: Darparu gwasanaethau trochi'r laith Gymraeg ar gyfer dibynyddion gweithwyr mudol sydd newydd gyrraedd

- 7.3.1 Mae'n flaenoriaeth i'r Awdurdod atgyfnerthu a diogelu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chadw at a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru yn cynnwys sefydlu 'continwmm laith Gymraeg' fel y nodir hynny yn strategaeth Cymraeg 2050.
- 7.3.2 Mae CSYM wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr Ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 7.3.3 Bydd dibynyddion gweithwyr mudol angen gweithdrefnau trochi paratoadol oni bai eu bod eisoes yn siarad Cymraeg. Byddai unrhyw ddiffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau trochi o ansawdd da yn achosi ystod y effeithiau negyddol yn cynnwys cyfyngu ar integreiddio disgyblion newydd, tarfu ar eu haddysg yn ogystal ag effeithiau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft tarfu ar strategaethau ehangach i normaleiddio'r defnydd o'r laith Gymraeg.
- 7.3.4 Mae angen canfod uchafswm y niferoedd tebygol fydd angen gwasanaethau trochi, ac mae dadansoddiad yn dangos:
- Bod amcangyfrif cyffredinol Horizon o 220 o ddibynyddion gweithwyr mudol yn ystod yr 'anterth' yn cyfateb i tua 502 o unigolion fydd angen gwasanaethau trochi yn ystod y cyfnod adeiladu, gan dybio y bydd y cyfnod aros cyfartalog yn ddwy flynedd.
 - Yn seiliedig ar amcangyfrif cyffredinol Horizon o 505 o ddibynyddion gweithwyr mudol yn ystod yr 'anterth' sy'n cyfateb i tua 1,158 o unigolion fydd angen gwasanaethau trochi yn ystod y cyfnod adeiladu, gan dybio y bydd y cyfnod aros cyfartalog yn ddwy flynedd.

	Blwyddyn										Cyfanswm
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	
Amcangyfrif o nifer dibynyddion gweithwyr mudol fydd yn bresennol ym mhob blwyddyn	8	16	117	272	326	427	505	388	179	54	Ddim yn berthnasol
'Penodau' trochi	8	8	109	163	163	264	241	148	31	23	1158

- 7.3.5 Bydd methu â darparu athrawon digonol sydd wedi cael hyfforddiant trochi arbenigol ar gyfer dibynyddion gweithwyr mudol yn cyfyngu ar ansawdd y trochi. Bydd hynny yn arwain at fwy o faich ar staff presennol ac yn effeithio ar gadw staff a morâl a bydd yn gwanhau ansawdd yr addysg fyddant yn gallu ei darparu.
- 7.3.6 Mae'n ddisgwyliedig na fydd gan rai dibynyddion gweithwyr mudol sgiliau Saesneg da. Fel arfer nid oes angen trefniadau trochi ar gyfer y sefyllfa yma, a heb gefnogaeth bydd hynny yn cynyddu llwyth gwaith y gwasanaethau trochi, ni fydd y dysgwyr yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer addysg a bydd yr effeithiau amharus y cyfeirir atynt uchod yn cael eu gwaethygu.
- 7.3.7 Mae Asesiad Gweithlu Niwclear Cyngres Sgiliau Ynni Niwclear (2015) yn nodi mewn perthynas â phrosiectau gorsafoedd niwclear newydd: "disgwyli'r y bydd

gweithwyr newydd yn cynnwys prentisiaid, a throsglwyddo staff sgiliedig o sectorau eraill yn cynnwys yr UE yn ehangach, yn datrys y diffyg. Ar draws y Diwydiant Adeiladu Peirianyddol at ei gilydd (nid niwclear yn unig), mae'r adroddiad yn nodi bod yna duedd gynyddol o ran cyflogi gweithwyr o du allan i'r DU". Er y gallai effeithiau Brexit leihau nifer y gweithwyr fydd yn cyrraedd gyda dibynyddion nad oes ganddynt sgiliau Saesneg da, ni ellir bod yn sicr o hynny, a dylid sicrhau darpariaeth mewn da bryd.

SAFBWYNT HORIZON

7.3.8 Mae Horizon yn cydnabod y bydd capasiti trochi yn debygol o fod yn annigonol. Mae ei gynnig i gefnogi gwasanaeth athrawon teithio yn fuddiol ond nid yw hynny yn ddigonol.

7.3.9 Yn 8.1 y datganiad Cynllunio, mae Horizon yn cynnig y canlynol:

- a) Penodi Cydlynnydd Iaith Gymraeg a Diwylliant fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu camau lliniaru a chyfoethogi Iaith Gymraeg a Diwylliant yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredol Prosiect DCO Wylfa Newydd.
- b) Hefyd, bydd Horizon yn darparu gwasanaeth athrawon teithiol er mwyn ategu'r capasiti addysg drochi presennol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (yn Ynys Môn a Gwynedd os bydd angen)". [6.2.28], [6.4.477]
- c) Casglu data cyfansymiol a dienw ar...blant fydd yn symud i'r KSA gyda gweithwyr adeiladu a gweithredol...yn cynnwys nifer y plant, oeddrannau a lefelau sgiliau Cymraeg er mwyn darparu gwybodaeth i gynllunwyr addysg a blynyddoedd cynnar.

7.3.10 Mae map Llwybr Lliniaru 8.14 Horizon yn nodi:

- a) Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon teithiol (pro-rata fel y manylir ar hynny isod) fyddai'n ategu'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os bydd angen) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael fel y bydd dau athro trochi iaith ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu yn dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth yma yn gymesur â nifer y gweithwyr fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr fydd yn dod â theuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro'n ofalus drwy gasglu data.
- b) Bydd Horizon yn ymgysylltu ac yn hwyluso deialog barhaus gyda CSYM, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn er mwyn trafod y mewnlifiad o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith honno.

7.3.11 Mae Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Cyf 8.21 Horizon yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol ellid ystyrid eu bod yn berthnasol:

- a) Bydd mewnlifiad gweithwyr o'r tu allan a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod adeiladu yn arwain at fwy o alw am wasanaethau addysg yn cynnwys ysgolion a chanolfannau trochi iaith. [B.4.374]
- b) Gan ddefnyddio senario achos gwaethaf pan fo'r holl blant oedran ysgol fydd yn symud i'r KSA yn ystod y cyfnod adeiladu yn ddi-Gymraeg, byddai cyflwyno 220 o blant oedran ysgol yn effeithio'n niweidiol ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg mewn ysgolion cynradd ar draws y KSA [B.4.378]

- c) Mae Horizon yn cydnabod rôl graidd a llwyddiant canolfannau trochi iaith yn y KSA, a byddai'n rhoi mesurau ar waith i gynyddu capasiti yn y canolfannau trochi iaith presennol. Cynigir camau lliniaru er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol yma fyddai'n codi yn ystod y cyfnod adeiladu. [B4.382]
- d) Mae Horizon yn cydnabod y byddai angen cymryd camau lliniaru effaith cyflwyno plan di-Gymraeg, yn arbennig i Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Syr Thomas Jones [B.4.386]
- e) Nid yw maint y gweithlu fyddai ei angen ar gyfer digomisiynu yn hysbys, nac am ba hyd y byddai ei angen, ond mae'n debygol y byddai'n llai nag yn ystod anterth y gwaith adeiladu. Heb y gofynion cyflogaeth a gwybodaeth am botensial niferoedd y cyflogeion lleol, ni ellir asesu effeithiau'r ddarpariaeth ar wasanaethau addysg, iechyd a gofal iechyd a gwasanaethau lleol a chyhoeddus yn fanwl. Fodd bynnag, byddid yn lliniaru effeithiau negyddol fel rhan o EIA Digomisiynu [B.5.18].
- f) Byddai'r holl weithwyr fyddai'n byw ar Gampws y Safle yn weithwyr sengl ac felly ni fyddent yn achosi galw am lefydd mewn ysgolion nag yn cyflwyno plant di-Gymraeg i'r ysgolion sydd agosaf at Ardal Datblygiad Wylfa Newydd yn y LAI. [C4.128]

7.3.12 Nid yw Horizon yn darparu unrhyw amcangyfrifon ynghylch niferoedd dibynyddion gweithwyr mudol nad oes ganddynt efallai Gymraeg neu Saesneg da, ac mae hynny yn bwysig oherwydd bod gwasanaethau trochi wedi'u dylunio o gwmpas anghenion mewnfudwyr Saesneg. Mae hwn yn fater pwysig ac mae angen roi mwy o ystyriaeth iddo.

Camau lliniaru sydd eu hangen

7.3.13 Mae pob ysgol gynradd ar Ynys Môn yn ysgol ddwyieithog sydd yn cynnal asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a CA2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ddwy ysgol gynradd sydd yn eithriadau, mae'r Gymraeg yn faes blaenoriaethol i'r ddwy ysgol. Bydd yr holl blant cynradd sydd yn symud i Ynys Môn angen cymorth trochi, pa bynnag ysgol y byddant yn mynd iddi. Bydd plant nad oes ganddynt Saesneg na Chymraeg angen cymorth ychwanegol yn y ddwy iaith.

7.3.14 Mae CSYM yn cydnabod bod Horizon yn cydnabod y ffaith y bydd 'cynnydd yn nifer y plant oed ysgol di-Gymraeg mewn ardaloedd ble darperir addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'r pwysau ar ganolfannau trochi iaith Gymraeg yn benodol'.⁸ **Mae sicrhau darpariaeth trochi iaith Gymraeg digonol ar gyfer plant mudol yn gam lliniaru hanfodol. Yn yr un modd y mae cymorth Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL) i blant nad oes ganddynt Saesneg. Oherwydd y diffyg sicrwydd mewn perthynas â nifer, oedran, cefndir ieithyddol (os ydynt yn siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg), anghenion addysg ychwanegol, lleoliad byw a chofrestru mewn ysgolion, mae CSYM yn gofyn i Horizon ddarparu arian i baratoi'n ddigonol ar gyfer senario achos gwaethaf cyn dechrau ar y gwaith Adeiladu.**

7.3.15 Mae CSYM yn cydnabod bod Horizon wedi cytuno i ariannu mwy o gapasiti athrawon trochi yn unol â'r galw am y gwasanaeth. Nid yw'n debygol y bydd cynnig gwreiddiol Horizon o ymrwymo i ariannu dwy swydd addysgu trochi iaith yn ddigonol. O ystyried na ddylai'r gymhareb athrawon i ddisgyblion mewn darpariaeth trochi fod yn fwy na 8:1, ac y dylai disgyblion gael eu dysgu gyda

⁸ Llyfrgell Archwilio APP-[430] para B.4.382

chohortau o'r un oedran, bydd angen mwy na dau athro ychwanegol. Dylai hynny gael ei gydnabod yn benodol yng Ngham Lliniaru 16 WLCMES.

7.3.16 Yn seiliedig ar gapasiti presennol a'r twf disgwylidig yn yr angen am gymorth ychwanegol (gweler Atodiad 7A), mae CSYM wedi nodi'r **angen i Horizon ariannu cyflogi**:

- a) 5 athro trochi Cymraeg Ychwanegol er mwyn bodloni anghenion disgwylidig disgyblion cynradd (cyfatebol i 2.5 mewn 2 ganolfan iaith ychwanegol).
- b) 5 athro trochi Cymraeg arbenigol a 5 cymhorthydd dosbarth trochi Cymraeg (Lefel 3) (h.y. 1 cymhorthydd athro ac 1 cymhorthydd dosbarth ym mhob un o 5 ysgol uwchradd Ynys Môn) er mwyn bodloni anghenion disgwylidig disgyblion CA3.
- c) 2 athro Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL) ychwanegol er mwyn cefnogi plant 7 oed a hŷn y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan fyddant yn cyrraedd ysgolion Ynys Môn.

7.3.17 **Bydd angen i'r ddarpariaeth yma gael ei hariannu a'i sefydlu mewn da bryd cyn i blant gweithwyr Horizon ddechrau cyrraedd** er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi ei sefydlu ac wedi ei hymgorffori'n dda yn barod ar gyfer y disgyblion cyntaf fydd yn cyrraedd. Rhagwelir y bydd **angen o leiaf dwy flynedd** i baratoi y camau fydd angen eu cymryd ar gyfer y plant cyntaf fydd yn cyrraedd, ac ymysg camau eraill bydd yn golygu:

- a) Recriwtio a hyfforddi staff addysgu trochi arbenigol
- b) Recriwtio a hyfforddi staff mewn anghenion ieithyddol a diwylliannol ychwanegol disgyblion EAL/WAL.
- c) Defnyddio staff arbenigol i hyfforddi athrawon sector cynradd ym mhob ysgol ar Ynys Môn ac, yn benodol y rhai sydd yn fwyaf tebygol o dderbyn disgyblion mudol o ganlyniad i Wylfa Newydd.
- d) Datblygu ac ymgorffori strategaethau sgrinio megis WELLCOMM yn y Cyfnod Sylfaen ac arfogi athrawon prif lif CA2 a CA3 yn well mewn perthynas â defnyddio sgiliau trochi yn y dosbarth.
- e) Datblygu deunyddiau a hyfforddiant mewn ieithoedd ychwanegol ar wahân i Saesneg (e.e. Japaneeg ac ieithoedd ychwanegol disgwylidig / hysbys).⁹

7.3.18 **Bydd angen darpariaeth mewn perthynas â bodloni anghenion ychwanegol dibynyddion cyn ysgol, cynradd ac ysgol Wylfa Newydd Horizon yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredol a digomisiynu'r Prosiect.** Bydd nifer plant gweithlu Horizon fydd angen cymorth yn dibynnu ar anghenion cymorth ychwanegol pob plentyn, a bydd angen i hynny fod yn destun adolygiad blynyddol yn ystod cyfnod y prosiect. Pan fo'r niferoedd yn anhysbys, bydd angen arian rhesymol ar gyfer senario achos gwaethaf gan Horizon. **Dylai hynny gael ei gydnabod yn benodol yng Ngham Lliniaru 16 WLCMES.**

Y Gronfa Dystiolaeth

⁹ Mae rhai canolfannau trochi eisoes wedi datblygu deunyddiau mewn ieithoedd megis Pwyleg er mwyn helpu plant a rhieni/gofalwyr nad oes ganddynt Saesneg i gyfathrebu'n well gyda staff addysgu a chynorthwylol.

7.4.19 Hefyd gweler Atodiad 7A sydd yn nodi rhestr o dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad yma.

7.4.20 Mae mwy o dystiolaeth yn cael ei darparu ym Mhennod yr Iaith Gymraeg a Diwylliant ac Atodiad 9A - Adroddiad Data Proffilio Iaith Ynys Môn.

7.5 Effaith Leol 7: Effeithiau ar addysg eraill o ganlyniad i ddibynyddion gweithwyr mudol

7.5.1 Hyd yn oed gyda gwasanaethau trochi o ansawdd da ar waith, nid ydynt yn llwyr liniaru'r pwysau ychwanegol ar athrawon a achosir gan fewnlifiad di-Gymraeg sydd â dealltwriaeth gyfyngedig o'r iaith y mae addysg yn cael ei darparu ynddi, a'r effaith amharus ar addysgu o ddydd i ddydd ac addysg eu cyd-ddisgyblion, fydd yn gostwng cyrhaeddiad. Nes bod sgiliau iaith y disgyblion mudol wedi gwella'n ddigonol, mae'n bosibl y bydd raid i athrawon ailadrodd cyfarwyddiadau, brawddegau esboniadau gan ddefnyddio terminoleg rhy syml, addasu cynlluniau gwersi a rhoi llai o amser a sylw i eraill yn y dosbarth.

7.5.2 Yn y tymor hirach, mae cyrhaeddiad addysgol is yn arwain at wendid yn sgiliau'r farchnad lafur ac yn achosi anhawster i fusnesau, mwy o broblemau recriwtio, dilyniant gyrfa cyfyngedig a chynnydd mewn diweithdra lleol.

7.5.3 Mae yna hefyd effeithiau y tu hwnt i'r dosbarth, er enghraifft, cyfyngu ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol a tharfu ar strategaethau ehangach i normaleiddio defnyddio'r iaith Gymraeg a gwella hyder y rhai y mae eu sgiliau yn gwella. Ar lefel weinyddol mae integreiddio siaradwyr di-Gymraeg hefyd yn cynyddu llwyth gwaith staff arall yr ysgol yn cynnwys penaethiaid, ac mae hynny o bosibl yn amharu ar brosesau pontio, er enghraifft pan fo'r dysgwyr yn symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.

7.5.4 Yng ngoleuni'r pwysau ehangach ar recriwtio a chadw athrawon, a'r berthynas agos rhwng addysgu a chyrhaeddiad addysgol, mae gan yr effaith ychwanegol yma y potensial i gynyddu'r anhawster o sicrhau niferoedd llawn o athrawon cymwys ar Ynys Môn, gan waethygu problem sydd yn bodoli.

7.5.5 Pan na fo plant mudol yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, byddai hynny yn gwaethygu mwy ar yr effaith ar ysgolion y byddant yn symud iddynt. Byddai methu â mynd i'r afael â hynny yn arwain at fwy o lwyth gwaith i staff presennol, angen am staff ychwanegol, mwy o waith rheoli a gweinyddu, mwy o amser o bosibl yn cael ei dreulio mewn canolfannau trochi, a chreu adnoddau dysgu sydd yn addas ar gyfer ieithoedd mewnfudwyr.

7.5.6 Yn achos ysgolion bach mae'n debyg y bydd yr effeithiau yma yn fwy oherwydd yr heriau ychwanegol sydd yn wynebu pob ysgol fach.

SAFBWYNT HORIZON

7.5.7 Nid yw cynigion Horizon yn mynd i'r afael â'r angen i atgyfnerthu staff addysgu a chynorthwyol er mwyn darparu mwy o gydnerthedd staff er mwyn sicrhau y gall pob dosbarth sydd yn cynnwys dysgwyr sydd wedi bod angen paratoad trochi barhau i gyflawni'r deilliannau addysgu a dysgu disgwylidig.

7.5.8 Mae'n ymddangos bod datganiadau Horizon mewn perthynas â chapasiti 'disgwylidig' yn canolbwyntio ar y cyfleusterau ffisegol yn unig ac nad ydynt yn ystried athrawon ac aelodau staff eraill.

7.5.9 Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gan Horizon Cyf 8.21 yn nodi "Fel yn achos yr asesiad o ysgolion cynradd, er na ddisgwylir pryderon o ran capasiti ysgolion uwchradd yn y KSA, byddai cyflwyno 220 o blant oedran ysgol i ysgolion uwchradd yn y KSA yn newid y cydbwysedd yn sylweddol rhwng siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a'r di-Gymraeg mewn ysgolion uwchradd". [B.4.384]

Camau lliniaru sydd eu hangen

7.5.10 Gall technegau trochi ond lliniaru'n rhannol y pwysau sydd ar y system addysg o ganlyniad i gyflwyno niferoedd mawr o siaradwyr di-Gymraeg a rhai nad ydynt yn siarad Saesneg o bosibl. Mesurau ehangach i atgyfnerthu recriwtio a chadw athrawon a drafodwyd yn yr Asesiadau Effaith yma ac asesiadau eraill yw'r mesurau allweddol o ran darparu cydnerthedd ychwanegol o ran addysgu ar draws yr Ynys.

7.5.11 Mae recriwtio a chadw athrawon, yn arbennig mewn ardaloedd ble ceir prinder, yn her sylweddol gydag amseroedd arwain maith, a bydd yr angen i ddarparu capasiti ychwanegol o ganlyniad i Wylfa Newydd yn cynyddu'r broblem hon heb gymryd camau lliniaru cydnerth a chadarnhaol.

7.5.12 Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi camau lliniaru a gynigir er mwyn atgyfnerthu'r gweithlu addysgu:

- a) Uwchraddio ystafelloedd staff ac ardaloedd staff yn unig
- b) Buddion chwaraeon/hamdden i athrawon
- c) Cymhelliannau i addysgu mewn ysgolion uwchradd
- d) Atgyfnerthu'r addysgu mewn ysgolion cynradd
- e) Cyfrannu at hyfforddiant athrawon cychwynnol
- f) Gwella sgiliau y gweithlu addysgu presennol
- g) Offer hyfforddi a mentora ar-lein

7.5.13 Mae'r un mesurau yn berthnasol i Effaith Leol 2 (gweler uchod) ac i gamau lliniaru yn LIR Addysg a Sgiliau, ac mae mwy o fanylion am bob un o'r uchod yn cael ei nodi yn y ddogfen honno.

7.5.14 Mae trafod gyda Horizon yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a chytuno ar sut y bydd yn lliniaru'r effeithiau yma yn llawn.

Y Gronfa Dystiolaeth

7.5.15 Hefyd gweler Atodiad 7A sydd yn nodi rhestr o dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad yma.

7.6 Effaith Leol 8: Darpariaeth anghenion arbennig

7.6.1 Mae methu â darparu darpariaeth anghenion arbennig priodol yn methu â bodloni anghenion dysgwyr, ac mae hynny yn golygu nad ydynt yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i wireddu eu llawn botensial.

7.6.2 Dylid nodi bod y ddarpariaeth AAA a ddarperir gan awdurdodau lleol yn gysylltiedig â disgyblion nad oes ganddynt anghenion ar ddatganiad ffurfiol.

7.6.3 Mae Canolfan Addysg y Bont yn ysgol arbennig yn Llangefni, gaiff ei chynnal gan yr Awdurdod ar gyfer disgyblion 3-19 oed sydd ag anghenion dysgu difrifol ag

anghenion cymhleth. Fel arfer mae disgyblion a leolir yn yr ysgol yn destun datganiad AAA. Mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth allgymorth i'r ysgolion prif lif ac yn cynnwys uned asesu Blynyddoedd Cynnar (Uned ABC) ar gyfer disgyblion dan 5 oed sydd ag anghenion ychwanegol. Mae lleoliadau arbennig yn cael eu darparu ar gyfer nifer fechan o ddisgyblion sydd ag ADY, na ellir bodloni eu hanghenion mewn ysgolion prif lif neu ysgolion arbennig lleol mewn canolfannau dysgu, gyda threfniant ag awdurdodau eraill a darparwyd hyfforddiant.

SAFBWYNT HORIZON

7.6.4 Ni ddarparwyd unrhyw gynigion.

Camau lliniaru sydd eu hangen

7.6.5 Polisi CSYM yw darparu ar gyfer y rhai sydd ag anghenion arbennig mewn ysgolion prif lif pryd bynnag fo hynny'n bosibl a bydd hynny yn parhau. Mae'r gofynion ar ysgolion prif lif i ddarparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol yn ystyriaeth bwysig.

7.6.6. Mae data ar gyfer ysgolion Ynys Môn¹⁰ yn dangos bod gan tua 4% o'r dysgwyr anghenion arbennig ar ddatganiad, bod 1% angen llefydd mewn ysgolion arbennig, a bod gan 21% anghenion y darperir ar eu cyfer mewn ysgolion prif lif. Nodir nad yw pob plentyn ag anghenion arbennig ar ddatganiad. Hefyd gall rhai niferoedd fod yn uwch o ganlyniad i deuluoedd sydd yn mewnffudo dros dro gyda dibynyddion oedran ysgol er mwyn llenwi swyddi dadleoli.

7.6.7 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o niferoedd y dysgwyr yn ystod pob blwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu fydd angen llefydd mewn ysgol arbennig, yn seiliedig ar dybiaeth dros dro CSYM o 505 o ddibynyddion yn ystod 'anterth' y gwaith adeiladu. Nodir nad yr un unigolion yw'r rhain o reidrwydd, ac y bydd anghenion pob unigolyn yn wahanol ac na ellir eu rhagfynegi'n rhwydd.

	Blwyddyn (cyfnod adeiladu)									
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Amcangyfrif o nifer y dysgwyr fydd angen llefydd mewn ysgolion arbennig	0	0	1	3	3	4	5	4	2	1

7.6.8 Mae'n ofynnol bod cyfleusterau sydd eu hangen i fodloni anghenion dysgwyr mewn ysgolion prif lif yn cael eu harchwilio am fylchau posibl mewn darpariaeth ffisegol (megis gliadiuron, addasiadau ar gyfer mynediad eu fannau tawel) ac ar gyfer staff megis cydlynwyr anghenion addysgol arbennig. Er mwyn cefnogi hynny, mae angen cynigion i atgyfnerthu addysg yn gyffredinol fel y nodir hynny uchod. Efallai y bydd angen cymorth ar gyfer adnoddau ychwanegol ac offer arbenigol hefyd.

7.6.9 Ar gyfer yr hanner sydd angen darpariaeth arbenigol, mae'r ysgol arbennig bresennol (Ysgol AAA Canolfan Addysg y Bont) yn llawn ar hyn o bryd, ac nid oes arwydd y bydd yr angen sylfaenol am lefydd yn gostwng.

7.6.10 Bydd CSYM angen deialog gyda Horizon er mwyn cytuno ar gamau lliniaru priodol.

¹⁰ Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth ([Dolen](#))

Y Gronfa Dystiolaeth

7.6.11 Hefyd gweler Atodiad 7A sydd yn nodi rhestr o dystiolaeth ychwanegol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad yma.

7.7 Effaith Leol 9: Darpariaeth Cyn-ysgol

7.7.1 Mae'r effaith ar ddarpariaeth addysg cyn ysgol a'r camau lliniaru angenrheidiol yn cael eu cyflwyno ym mhennod yr Iaith Gymraeg a Diwylliant.

8.0 Safbwynt Polisi Lleol

8.1 Paratoi pobl ifanc yr Ynys

8.1.1 Cymru'n Un : Un Blaned. Cynllun Datblygu Cynaliadwy Newydd ar gyfer Cymru ¹¹ (2009). Mae sicrhau dyfodol economaidd hirdymor ar gyfer Cymru yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodi bod y sector ynni yn bwysig i Gymru.

8.1.2 Mae dogfen CSYM Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa (2014)¹² yn nodi: "Po fwyaf y gall gweithlu'r Ynys ateb gofynion cyflogaeth y Prosiect, y mwyaf fydd budd economaidd y Prosiect i economi'r Ynys", ac mae'n galw am:

- a) "Hyrwyddwr Prosiect NNB Wylfa i gefnogi...gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd fydd ar gael i gymunedau'r Ynys".
- b) "Cefnogaeth i addysg a hyfforddiant".
- c) "Sicrhau bod cyfleoedd mewn perthynas â chyflogaeth, cadwyn gyflenwi yn cael eu hysbysebu a'u bod yn hygyrch yn lleol."
- d) "Cymorth amserol i sefydliadau addysgol presennol a darpariaeth addysgol lleol gyda phwyslais ar hyrwyddo Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg".
- e) "Cefnogi cymunedau difreintiedig yr Ynys a phobl ifanc lleol yn cynnwys drwy fentrau hyfforddiant lleol a rhaglenni allgymorth fel eu bod yn gallu elwa o gyfleoedd cyflogaeth sydd yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd".
- f) "Gwneud y mwyaf o ddarpariaeth llafur lleol drwy gcontractau cyflogaeth lleol a chytundebau llafur, mentrau cyflogaeth, caffael busnesau a gwasanaethau sydd yn cyflogi pobl leol a hysbysebu swyddi".
- g) "Cefnogi busnesau lleol pan fo staff yn cael eu colli i Brosiect Wylfa Newydd. Dylai hynny gynnwys hyfforddiant mewn meysydd sgiliau ble mae yna brinder cydnabyddedig, er mwyn cynyddu'r gronfa gyffredinol o bobl sydd ar gael".

8.1.3 Yn ei ddogfen strategol 'Trawsnewid Addysg ar Ynys Môn, Moderneiddio Ysgolion'¹³ (2013) nododd CSYM ei ymrwymiad i ddarparu'r addysg orau posibl i holl blant a phobl ifanc yr Ynys.' Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, nodwyd bod moderneiddio addysg yn un o'r prif flaenoriaethau.

¹¹ Cymru'n Un: Un Blaned Mai 2009 ([Dolen](#))

¹² CSYM SPG 2014 ([Dolen](#))

¹³ CSYM SPG 2014 ([Dolen](#))

- 8.1.4 Gweledigaeth CSYM yw “sicrhau bod pob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, ble bynnag y maent, beth bynnag fo’u cefndir a’u hamgylchiadau, yn gwireddu eu llawn botensial a’u bod yn cael eu paratoi i chwarae rôl ragweithiol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr y gymuned yn y dyfodol. Mae angen i ni godi safonau addysg ar yr Ynys i wireddu hynny, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru.” Ei amcanion yw:
- gwella mwy ar safonau arwain, rheoli ac ansawdd addysgu a dysgu,
 - gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc a thorri’r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
 - hyrwyddo’r rhaglen economaidd gymdeithasol a gwella cymunedol, yn arbennig o ran datblygu gweithlu sgiliedig ym maes STEM fydd yn cyfrannu at ddatblygu Ynys Ynni, a
 - moderneiddio’r stoc ysgolion ar yr Ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion llai ac adeiladu ysgolion yr 21ain ganrif mewn tair ardal ym Mand A, a bydd un ohonynt yn agor ym Mawrth 2019.
- 8.1.5 Mae amcanion ychwanegol a nodwyd yn ddiweddar sydd hefyd yn ymateb i bwysau cynyddol ar gyllidebau yn cynnwys:
- yr angen i ganolbwyntio ar gynlluniau cynaliadwy a fforddiadwy;
 - sicrhau bod ein strategaeth yn cyfrannu at amcanion Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol (2015), ac yn cyfrannu at ‘Gynllunio Lle’; a
 - sicrhau’r cyfleoedd gorau i’n plant a’n pobl ifanc ffynnu drwy fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sydd ar y gorwel drwy raglen Ynys Ynni.
- 8.1.6 Her allweddol i CSYM yw gweithredu ar heriau sydd yn wynebu ysgolion bach oherwydd eu natur wledig. Mae gan hanner ysgolion Ynys Môn (23) lai na 100 o ddisgyblion. Bu i adroddiad Estyn ar faint ysgolion ac effeithlonrwydd addysgol (2013) amlygu effaith maint ysgol ar gyrhaeddiad disgyblion. Dangosodd:
- Ar gyfartaledd, nad yw ysgolion â llai na 100 o ddisgyblion yn perfformio cystal o ran deilliannau arolwg, safonau disgyblion, llesiant, darpariaeth cwricwlwm ac ansawdd addysgu.
 - Ar gyfartaledd y duedd yw i ysgolion uwchradd â llai na 600 o ddisgyblion beidio perfformio cystal o ran canlyniadau arholiadau, llesiant, ansawdd addysgu a darpariaeth cwricwlwm. Canfuwyd bod y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd bach a mawr yn tua 10% o ran y niferoedd sydd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar diwedd CA4.
- 8.1.7 Mae’r Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020¹⁴ yn nodi y dylai holl blant a phobl ifanc Ynys Môn fod yn rhugl yn y ddwy iaith a meddu ar y gallu i ddefnyddio’r ddwy iaith cystal â’i gilydd ar ddiwedd eu gyrfa addysgol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n cynnwys yr amcanion canlynol:
- sicrhau bod cynigion ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif yn atgyfnerthu darpariaeth cyfrwng Cymraeg,

¹⁴ Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020 ([Dolen](#))

- b) cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth Iaith Gymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau ar gyfer hwyrddfyodiaid,
 - c) sicrhau cyfran uwch o ddarpariaeth Iaith Gymraeg yn ysgolion CSYM. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu,
 - d) cynyddu'r ganran o fyfyrwyr 14-16 oed sydd yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg,
 - e) gwella darpariaeth a safonau, a
 - f) bod pob aelod o weithlu addysg yr Awdurdod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel sydd yn briodol ar gyfer y swydd.
- 8.1.8 Mae'r Polisi Iaith Gymraeg¹⁵ (2016) yn nodi na ddylid trin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae CSYM yn cynnig cwrs addysg sydd yn agored i'r cyhoedd; bydd yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 8.1.9 Mae Cynlluniau Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017 yn amcanu at godi safonau a moderneiddio ysgolion.
- 8.1.10 Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn (2004-2015) Mae'r strategaeth hon yn amcanu at sicrhau economi ffyniannus a llwyddiannus gyda chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd yn cael eu creu gan gyflogwyr arloesol gyda gwasanaethau cymorth effeithiol a gweithlu sgiliedig a hyblyg.
- 8.1.11 Mae Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd 2011 – 2026¹⁶ (2017) yn nodi: "Erbyn 2026 bydd Ynys Môn a Gwynedd yn ardal... fydd â gweithlu sgiliedig priodol, ble bydd ei thirgolion a'i busnesau yn gallu cofleidio cyfleoedd economaidd trawsnewidiol newydd er mwyn ffynnu, ac sydd yn hyrwyddo gweithgaredd economaidd ymysg pobl ifanc." Mae'r Amcanion Strategol yn cynnwys:
- a) Sicrhau bod y seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol wedi ei sefydlu e.e.ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir eu darparu (e.e. drwy gyfraniadau datblygwyr) er mwyn ymdopi â phob math o ddatblygiad.
 - b) Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu.
 - c) Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd da sydd yn addas ar gyfer yr economi leol.
 - d) Bydd cynigion ond yn cael eu caniatáu pan fo capasiti seilwaith digonol yn bodoli neu pan fo hynny yn cael ei ddarparu yn amserol. Pan fo cynigion yn cynhyrchu angen sy'n uniongyrchol gysylltiedig â seilwaith newydd neu well, ac nad yw hynny yn cael ei ddarparu gan wasanaeth neu gwmni seilwaith, mae'n rhaid i hynny gael ei ariannu gan y cynnig. Efallai y byddir yn gofyn am gyfraniad ariannol er mwyn sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, pan maent yn angenrheidiol i wneud y cynigion yn dderbyniol. Pan fo'n briodol, gellir gofyn am gyfraniadau at nifer o ddibenion, yn cynnwys: cyfleusterau addysg, cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant a mesurau Iaith Gymraeg.

¹⁵Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn Fersiwn 3.0 (12 Mai 2016) ([Dolen](#))

¹⁶ Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd 2011 – 2026 Datganiad Ysgrifenedig 2017 ([Dolen](#))

- e) Mewn perthynas â datblygu AB ac AU, bydd cynigion i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes neu adeiladau ar safleoedd addysg bellach / uwch presennol yn cael eu ffafrio yn hytrach na chynigion i ddatblygu ar safleoedd tir gwyrdd. Er y cefnogir yr egwyddor o addasu adeiladau ar gyfer eu haildddefnyddio, ni fydd pob adeilad yn addas ar gyfer hynny.
- f) Pan fo'n ddichonadwy, byddir yn gwneud y mwyaf o fuddion economaidd a chymunedol lleol, drwy gytuno ar strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio yn CSYM yn ystod camau cynnar datblygu'r prosiect.
- g) Mae angen i'r hyrwyddwr ymgysylltu'n gynnar â CSYM mewn perthynas â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r nod o wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant i gymunedau lleol yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd angen cyflwyno strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a chaffael yr hyrwyddwr a'i gynlluniau gweithredu i CSYM fel rhan o unrhyw gais cynllunio pan fo hynny'n berthnasol i'r cais.

8.1.12 Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol Mai 2018¹⁷

- a) Bydd CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr Prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall gefnogi cyflawni Rhaglen Ynys Ynni ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael i gymunedau lleol yr Ynys, yn cynnwys: cefnogaeth i addysg a hyfforddiant, sicrhau bod cyfleoedd mewn perthynas â chyflogaeth, cadwyn gyflenwi yn cael eu hysbysebu a'u bod yn hygyrch yn lleol, strategaeth gaffael sydd yn galluogi i fusnesau lleol gael mynediad at gyfleoedd, cyfraniadau er mwyn cefnogi hyfforddiant ac uwchsgilio yn cynnwys mewn ysgolion a cholegau lleol yn ogystal â thrwy ddarparu cynlluniau mentora, hyfforddi a phrentisiaethau a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr gyfranogi mewn cynlluniau o'r fath.
- b) Mae'n rhaid rhoi cefnogaeth i bobl ifanc lleol gael mynediad at addysg a hyfforddiant er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth newydd.
- c) Mae CSYM yn disgwyl i hyrwyddwr Prosiect Wylfa Newydd baratoi a gweithredu Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau.
- d) Mae'n cynnwys rhestr o un deg tri o fesurau cymorth er mwyn annog datblygu staff addysgu cymwys mewn STEM ac ymestyn cyfleusterau er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion sydd yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd ac er mwyn gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol ar ddarpariaeth bresennol.
- e) Bydd angen i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig / perthynol ddangos sut fydd amcanion y Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau yn cael eu cyflawni gan y datblygiad a gynigir.
- f) Mae monitro yn debygol o gynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i'r canlynol: nifer y bobl leol fydd yn derbyn hyfforddiant ac yn cael eu huwchsgilio mewn rhaglenni a ariennir a/neu a ariennir yn rhannol gan hyrwyddwr y Prosiect, cyfran y gweithlu fydd yn cael ei recriwtio (yn lleol).

8.2 Capasiti a Galluogrwydd ysgolion yr Ynys

8.2.1 Gweledigaeth CSYM yw "sicrhau bod pob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, ble bynnag y maent, beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn gwireddu eu llawn botensial a'u bod yn cael eu paratoi i chwarae rôl ragweithiol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr y gymuned yn y dyfodol. Mae angen i ni godi safonau addysg

¹⁷ Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol Mai 2018([Dolen](#))

ar yr Ynys i wireddu hynny, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru.” Ei amcanion yw:

- a) gwella mwy ar safonau; rheoli ac ansawdd addysgu a dysgu,
- b) gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol;
- c) hyrwyddo'r rhaglen economaidd gymdeithasol a gwella cymunedol, yn arbennig o ran datblygu gweithlu sgiliedig ym maes STEM fydd yn cyfrannu at ddatblygu Ynys Ynni;
- d) moderneiddio'r stoc ysgolion ar yr Ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion llai ac adeiladu ysgolion yr 21ain ganrif mewn tair ardal ym Mand A, a bydd un ohonynt yn agor ym Mawrth 2019.

8.2.2 Mae amcanion ychwanegol a nodwyd yn ddiweddar sydd hefyd yn ymateb i bwysau cynyddol ar gyllidebau yn cynnwys:

- a) yr angen i ganolbwyntio ar gynlluniau cynaliadwy a fforddiadwy;
- b) sicrhau bod ein strategaeth yn cyfrannu at amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), ac yn cyfrannu at 'Gynllunio Lle';
- c) sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a'n pobl ifanc ffynnu drwy fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sydd ar y gorwel.

8.2.3 Mae polisi moderneiddio ysgolion CSYM wedi ei alinio hyd yma â'r strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol, yn cynnwys rhaglen genedlaethol Ysgolion y 21ain Ganrif. Bydd y cam cyntaf, Band A, yn cael ei gwblhau ar Ynys Môn ym mis Ebrill 2019, a bryd hynny bydd tua 10% o ddysgwyr cynradd yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau'r 21ain Ganrif. Mae'r cynnydd hyd yma wedi cynnwys cau nifer o ysgolion llai ac agor ysgolion newydd. Erbyn canol 2019, disgwylir y bydd gan ysgolion cynradd Ynys Môn 10% o lefydd gwag, fydd yn ostyngiad o dros 17% mewn chwe blynedd. Bydd rhaglen moderneiddio ysgolion Ynys Môn yn rhoi sylw dyledus i'r ffactorau canlynol:

- a) Effaith bosibl ar yr amgylchedd a newidiadau arfaethedig i'r seilwaith ysgolion.
- b) Lleihau allyriadau carbon fydd yn deillio o ddefnyddio ysgolion yn uniongyrchol mewn perthynas â gwres, ynni a thrafnidiaeth.
- c) Cyfleoedd i ysgolion ddangos ymarfer cynaliadwyedd da o ran ynni, dŵr, gwastraff, teithio, bwyd a chaffel ar gyfer eu disgyblion, staff a'u cymunedau.
- d) Gwella addysgu am ddatblygu cynaliadwy drwy ddarparu amgylcheddau dysgu arloesol dan do ac yn yr awyr agored.

8.2.4 Mae CSYM yn cydnabod nad yw'r arian sydd ar gael dan raglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael â materion moderneiddio ar gyfer pob ysgol, ac mae dull o flaenoriaethu yn cael ei ystyried. Her arall i CSYM yw gweithredu ar heriau sydd yn wynebu ysgolion bach oherwydd eu natur wledig. Mae gan hanner ysgolion Ynys Môn (23) lai na 100 o ddisgyblion. Bu i adroddiad Estyn ar faint ysgolion ac effeithlonrwydd addysgol (2013) amlygu effaith maint ysgol ar gyrhaeddiad disgyblion.

8.2. 5 Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020¹⁸. Dylai holl blant a phobl ifanc Ynys Môn fod yn rhugl yn y ddwy iaith a meddu ar y gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith cystal â'i gilydd ar ddiwedd eu gyrfa addysgol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n cynnwys yr amcanion canlynol:

- a) Sicrhau bod cynigion ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif yn atgyfnerthu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- b) Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau ar gyfer hwyrdyfodiaid;
- c) Sicrhau cyfran uwch o ddarpariaeth iaith Gymraeg yn ysgolion CSYM. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu;
- d) Cynyddu'r ganran o fyfyrwyr 14-16 oed sydd yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- e) Gwella darpariaeth a safonau; a
- f) Bod pob aelod o weithlu addysg yr Awdurdod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel sydd yn briodol ar gyfer y swydd.

8.2.6 Polisi iaith Gymraeg¹⁹ (2016). Ni ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae CSYM yn cynnig cwrs addysg sydd yn agored i'r cyhoedd; bydd yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.2.7 Mae Cynlluniau Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017 yn amcanu at godi safonau a moderneiddio ysgolion.

8.2. 8 Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn (2004-2015) Mae'r strategaeth hon yn amcanu at sicrhau economi ffyniannus a llwyddiannus gyda chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd yn cael eu creu gan gyflogwyr arloesol gyda gwasanaethau cymorth effeithiol a gweithlu sgiliedig a hyblyg.

8.2. 9 Mae gweledigaeth Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd 2011 – 2026²⁰ (2017) yn nodi: "Erbyn 2026 bydd Ynys Môn a Gwynedd yn ardal... fydd â gweithlu sgiliedig priodol, ble bydd ei thrigolion a'i busnesau yn gallu cofleidio cyfleoedd economaidd trawsnewidiol newydd er mwyn ffynnu, ac sydd yn hyrwyddo gweithgaredd economaidd ymysg pobl ifanc." Mae'r Amcanion Strategol yn cynnwys:

- a) Sicrhau bod y seilwaith ffisegol neu gymunedol priodol wedi ei sefydlu e.e.ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir eu darparu (e.e. drwy gyfraniadau datblygwyr) er mwyn ymdopi â phob math o ddatblygiad.(SO2)
- b) Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu.(SO11)
- c) Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd da sydd yn addas ar gyfer yr economi leol. (SO 12)

¹⁸ Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020 ([Dolen](#))

¹⁹Polisi iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn Fersiwn 3.0 (12 Mai 2016) ([Dolen](#))

²⁰ Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd 2011 – 2026 Datganiad Ysgrifenedig 2017 ([Dolen](#))

8.2.10 Mae cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun yn golygu gweithredu nifer o Bolisiau. Yn seiliedig ar y materion a godwyd yn y Bennod hon o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol, mae'r Polisiau canlynol yn arbennig o berthnasol:

- a) Maen Prawf 5 Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig, sydd yn nodi'r disgwyliad na fydd gofynion llety gweithwyr adeiladu (y rhagfynegir y bydd 75% ohonynt yn dod o du allan i'r ardal (h.y. 7,000 o weithwyr)), yn arwain at ganlyniadau niweidiol annerbyniolcymdeithasol, ieithyddol.
- b) Maen Prawf 9 Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig, sydd yn disgwyl i Horizon wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant i gymunedau lleol yn y tymor byr a'r hirdymor.
- c) Maen Prawf 10 Polisi PS9: Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig, sydd yn nodi'r disgwyliad y bydd Horizon yn ystyried capasiti cyfleusterau cymunedol lleol. Er nad ydynt wedi eu cynnwys fel esiampl yng ngeiriad y Polisi, mae'r cyfleusterau yma yn cynnwys capasiti ysgolion lleol, ysgolion meithrin, canolfannau trochi/dosbarthiadau Iaith Gymraeg.

8.2.11 Yn y cyswllt yma, perthnasol iawn hefyd yw Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol Mai 2018²¹ sydd yn darparu cyngor manwl ar gymhwyso Polisiau perthnasol yng Nghyd-Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

- a) Bydd CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr Prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall gefnogi cyflawni Rhaglen Ynys Ynni ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael i gymunedau lleol yr Ynys, yn cynnwys: cefnogaeth i addysg a hyfforddiant, sicrhau bod cyfleoedd mewn perthynas â chyflogaeth, cadwyn gyflenwi yn cael eu hysbysebu a'u bod yn hygyrch yn lleol, strategaeth gaffael sydd yn galluogi i fusnesau lleol gael mynediad at gyfleoedd, cyfraniadau er mwyn cefnogi hyfforddiant ac uwchsgilio yn cynnwys mewn ysgolion a cholegau lleol yn ogystal â thrwy ddarparu cynlluniau mentora, hyfforddi a phrentisiaethau a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr gyfranogi mewn cynlluniau o'r fath.
- b) Mae'n rhaid rhoi cefnogaeth i bobl ifanc lleol gael mynediad at addysg a hyfforddiant er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth newydd.
- c) Mae CSYM yn disgwyl i hyrwyddwr Prosiect Wylfa Newydd baratoi a gweithredu Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau.
- d) Mae'n cynnwys rhestr o un deg tri o fesurau cymorth er mwyn annog datblygu staff addysgu cymwys mewn STEM ac ymestyn cyfleusterau er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion sydd yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd ac er mwyn gwrthbwysu unrhyw effeithiau niweidiol ar ddarpariaeth bresennol.
- e) Bydd angen i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig / perthynol ddangos sut fydd amcanion y Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau yn cael eu cyflawni gan y datblygiad a gynigir.
- f) Dylid gweithredu camau rhagweithiol a gytunir rhwng hyrwyddwr y Prosiect a CSYM er mwyn lliniaru effeithiau niweidiol posibl ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant ac er mwyn atgyfnerthu hynny. Mae rhestr o ddeuddeg o gamau cymorth enghreifftiol wedi eu chynnwys.

²¹Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol Mai 2018([Dolen](#))

- g) Bydd yn ofynnol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig / perthynol ddangos sut fydd Strategaeth Yr Iaith Gymraeg yn cael ei gyflawni gan y datblygiad a gynigir.
- h) Mae monitro yn debygol o gynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i'r canlynol: nifer y bobl leol fydd yn derbyn hyfforddiant ac yn cael eu huwchgilio mewn rhaglenni a ariennir a/neu a ariennir yn rhannol gan hyrwyddwr y Prosiect, cyfran y gweithlu fydd yn cael ei recriwtio (yn lleol).

8.2.13 Mae asesiad CSYM o effeithiau lleol posibl a ddisgrifir yn y Bennod hon yn dangos y gallai'r Prosiect arwain at effeithiau niweidiol ar ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill, ac y bydd hynny yn arwain at fwy o ofynion ar y cyfleusterau hynny (yn ffisegol ac o ran gweithlu). Heb reoli hynny, un effaith bosibl amlwg fyddai ar allu ysgolion a chyfleusterau cysylltiedig eraill i barhau i chwarae eu rôl gritigol er mwyn cynnal ac atgyfnerthu'r Iaith Gymraeg. Cydnabyddir bod ysgolion yn llefydd pwysig ar gyfer cynnal a chyfoethogi'r Iaith Gymraeg a diwylliant ar yr Ynys. Mae'r pryderon yma yn cael eu hamlygu hefyd yn y Bennod ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant. Heb liniaru cydnerth o strategaethau monitro, mae CSYM yn dal yn bryderus na fyddir yn bodloni'r profion Polisi uchod.

8.2.14 Ar sail hynny, mae gofynion meini prawf 10 ac 13 Polisi PS 9 a gofynion Polisi PS2 Seilwaith a chyfraniadau datblygwyr a Pholisi ISA 1 Darpariaeth seilwaith, yn benodol berthnasol hefyd. Cyn belled y bodlonir profion statudol, mae'r profion polisi yma yn disgwyl y bydd cyfraniadau yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau (allai gynnwys uwchraddio cyfleusterau presennol) er mwyn lliniaru effeithiau.

8.2.15 Pan fo asesiad o ddatblygiad yn clustnodi effeithiau posibl (cadarnhaol neu negyddol) disgwylir y bydd ymgeisydd yn ystyried a ellid gwella effaith gadarnhaol ac a ellir rheoli effaith negyddol ar lefel dderbyniol. Gellid ymgorffori'r mesurau gwella neu liniaru yma yn y datblygiad neu gellid eu sicrhau drwy gyfraniadau (yn ddarostyngedig i brofion statudol).

8.2.16 Fel a nodir yn y Bennod hon, nid yw CSYM yn ystyried bod y mesurau a nodwyd gan Horizon yn ddigon cydnerth er mwyn lliniaru'r effeithiau a nodwyd.

8.2.17 Mae maen prawf 16 Polisi PS9 Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig yn benodol berthnasol hefyd oherwydd byddai CSYM yn disgwyl trothwyon cydnerth ar gyfer monitro ac adrodd ar ddsbarthiad gofodol gweithwyr er mwyn lleihau effeithiau posibl gweithlu mawr dros dro ar gyfleusterau presennol ar yr Ynys. Mae angen i drothwyon yn y fframwaith monitro fod yn ddigon cydnerth er mwyn clustnodi tueddiadau allai, pe gadewid iddynt barhau, arwain at batrymau ymddygiad, allai fod yn anodd eu dadwneud ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Mae clustnodi tueddiadau cyn gynted â phosibl yn hanfodol. Mae maen prawf 3 Polisi PS10 Wylfa Newydd: llety dros dro math campws ar gyfer gweithwyr adeiladu, hefyd yn benodol berthnasol yng nghyd-destun monitro a thaclo'n rhagweithiol yr effeithiau neu'r amrywiolion ychwanegol yn y tybiaethau sydd yn tanategu achos Horizon. O safbwynt capasiti ysgolion, gallai'r amrywiolion ddeillio o gynnydd mewn dibynyddion gweithwyr, amrywiad mewn tarddiad gweithwyr (h.y. mwy o weithwyr o'r tu allan).

8.2.18 Fel y disgrifir hynny yn y Bennod yma o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol a phenodau eraill, nid yw CSYM yn argyhoeddedig bod y fframwaith monitro yn ddigon cydnerth.

9.0 Bylchau yn wybodaeth a ddarparwyd

Addysg a Sgiliau

9.1 Rhestr o fylchau

- 9.1.1 Yn nogfen 1.4. Geirfa Gyffredinol, mae Horizon yn diffinio ei Strategaeth Swyddi a Sgiliau fel “Strategaeth sydd wedi ei datblygu gyda rhanddeiliaid er mwyn adnabod amrywiol fesurau ar gyfer cefnogi cyflogaeth ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd.” Ychwanegwyd nad yw’n ddogfen a ardystiwyd. Yn seiliedig ar y diffiniad yma, nid yw’n fwriad i’r strategaeth fynd i’r afael â goblygiadau ehangach swyddi a sgiliau, lliniaru effeithiau neu wneud y mwyaf o gyflogaeth i drigolion Ynys Môn.
- 9.1.2 Mae’r Strategaeth Swyddi a Sgiliau yn nodi: “Mae strategaeth addysg Horizon yn canolbwyntio ar dri maes: ysbrydoli, ymgysylltu ac arfogi [rhestrir isod], ond ni ddarparwyr unrhyw strategaeth addysg, ac ychydig iawn o wybodaeth gadarn sydd yn bodoli mewn perthynas ag ymrwymadau i gefnogi’r amcanion yma:
- a) ysbrydoli pobl ifanc i astudio pynciau STEM
 - b) ymgysylltu â phobl ifanc, rhanddeiliaid allweddol a’r gymuned leol ynghylch y cyfleoedd recriwtio fydd Horizon yn eu cynnig yn y dyfodol; ac
 - c) arfogi pobl ifanc â sgiliau cyflogadwyedd allweddol.
- 9.1.3 Mae’r Map Llwybr Lliniaru yn rhestru 1,039 eitem, ond dim ond dau ohonynt sydd yn cyfeirio at addysg fel ‘mater’ a dim ond 19 sydd yn cyfeirio at addysg.
- 9.1.4 Mae Horizon yn cyfeirio at ei Siarter Cadwyn Gyflenwi yn cynnwys “cyfres o fesurau...fydd yn dechrau yn y sector addysg gynradd gan dracio i sefydliadau addysg uwchradd ac uwch a phartneriaid.” Mae’n ymddangos bod mwy o dystiolaeth mewn perthynas â’r cysyniad yma ar goll.
- 9.1.5 Mae Horizon yn cydnabod bod “Rhagfynegi llafur yn weithgaredd parhaus ac nid yw’n wyddoniaeth bur”, gan nodi bod “Cynllunio hyfforddiant newydd neu ychwanegol ar sail rhagfynegiadau gwreiddiol yn unig yn ddull sydd yn achosi risg, ond gellir lliniaru hynny. Bydd ymgorffori cydweithio cynnar â chontractwyr a rheolyddion rhaglenni yn helpu i sefydlu lefel angen sydd yn fwy tebygol”. Mae’r datganiadau yma yn disgrifio gwaith y dylid fod wedi ei wneud eisoes ac y dylid ei gynnwys yn y cynigion.
- 9.1.6 Mae’r rhan fwyaf o’r dogfennau a ddarparwyd gan Horizon mewn perthynas â swyddi a sgiliau lleol yn ymwneud â phobl sydd yn byw yn DCCZ, sydd yn ardal fawr o ogledd orllewin Cymru, ac nid oes yr un sydd yn cyfeirio’n benodol at drigolion Ynys Môn fel grŵp. Nid yw Horizon yn darparu gwybodaeth am sut y bydd yn cynllunio ei ymarferion recriwtio ar gyfer y Prosiect er mwyn gwahaniaethu rhwng trigolion Ynys Môn ac eraill, os o gwbl.
- 9.1.7 Ni ddarparwyd amcangyfrif ynghylch faint o weithwyr y disgwylir fydd yn cael eu cyflogi’n uniongyrchol, gan contractwyr ac iscontractwyr yn ystod holl gyfnodau’r Prosiect. Mae Horizon yn nodi y bydd llawer o’r gyflogaeth yn deillio o’r gadwyn gyflenwi, ond ni ddarperir manylion ynghylch sut y gallai patrymau cyflogaeth amrywio rhwng cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.

9.1.8 Mae cynigion ynghylch hyfforddi sgiliau nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladu neu addysg mewn ysgolion yn gyfyngedig iawn, ac mae materion ynghylch addysgu neu recriwtio a chadw athrawon yn absennol.

9.2 Ceisiadau gan CSYM a dyddiadau

9.2.1 Yn ei ymateb i Gyfnod 3 (PAC3) (llythyr gan Gwynne Jones i Mr Hawthorn) nododd CSYM: “I grynhoi, mae’r dystiolaeth o’r galw am sgiliau yn annerbyniol o anghyflawn ac mae angen mwy o waith. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn caniatáu targedu swyddi a hyfforddiant priodol sydd yn angenrheidiol er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd a chyflenwi’r llafur sydd ei angen ar Horizon cyn i swyddi fod ar gael, gan leihau’r angen i fewnfudo pryd y gallai swyddi gael eu llenwi gan lafur lleol tra’n gwarchod cyflogwyr a busnesau lleol”. Roedd y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn y llythyr yma yn cynnwys:

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani	Canlyniad
Dealltwriaeth fanwl o’r bylchau sgiliau i’r dyfodol	Peth gwybodaeth wedi’i darparu
Pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen gan addysg uwch, ac addysg bellach er mwyn bodloni’r galw iir dyfodol gan Horizon	Peth gwybodaeth wedi’i darparu
Manylion am yr angen am sgiliau yn y gadwyn gyflenwi uniongyrchol	Peth gwybodaeth wedi’i darparu
Manylion am y contractau sydd ar gael i fusnesau lleol	Heb eu darparu
Mwy o fanylion am y galw am a’r cyflenwad o sgiliau a chymwysterau.	Peth gwybodaeth wedi’i darparu
Manylion am lefel a maint y cymorth ar gyfer gwella cyfleusterau mewn ysgolion uwchradd	Heb eu darparu
Sut fydd Horizon yn cynnal y Cynllun Prentisiaeth Technegol yn ystod oes y Prosiect adeiladu, faint o lefydd prentisiaeth fydd yn cael eu creu bob blwyddyn ac a fydd y nifer yn codi yn unol ag anterth y galw am lafur	Heb eu darparu
Sut mae ymdrechion Horizon i ychwanegu cyd-destun niwclear i gyrsgiau ym Mhrifysgol Bangor, y buddsoddiad o £1m yn narpariaeth Peirianeg Grŵp Llandrillo Menai o Fangor i Langefni, ac ymgysylltu ag ysgolion er mwyn annog dilyn	Heb eu darparu

pynciau STEM, yn cydweddu â strategaeth sgiliau / hyfforddiant ehangach Horizon, a phryd fydd y buddsoddiadau ychwanegol yma yn cael eu gwneud.	
Mwy o wybodaeth am unrhyw raglenni neu fentrau er mwyn ymgorffori neu ailhyfforddi staff Magnox presennol (neu rai sydd wedi gadael yn ddiweddar sydd yn dal yn meddu ar sgiliau perthnasol). Mae angen cynigion clir mewn perthynas â hyn.	Heb eu darparu
Dylai union gylch gorchwyl a rôl y gwasanaeth brocera [WNESS] gael ei nodi er mwyn rhoi syniad cyson o'r hyn fydd yn cael ei ddarparu. Hefyd, yn yr un modd dylid nodi'n glir sut y bydd llwybrau eraill at gyflogaeth y cael eu gweithredu, yn ogystal â mecanweithiau penodol, targedau wedi eu mesur, ariannu a manylion eraill yn cynnwys staffio.	Peth gwybodaeth wedi'i darparu
Manylion am sut fydd Horizon yn gweithio â phartneriaid er mwyn ariannu hyfforddiant yn cynnwys maint yr ymrwymiad ariannol ar gyfer hyfforddiant a mecanweithiau ar gyfer cyflawni hynny.	Heb eu darparu

9.2.2 Yn ei lythyr dyddiedig 30.11.17 nododd CSYM ei fod angen:

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani	Canlyniad
Strategaeth Addysg [7.15]	Heb eu darparu
Cadarnhad ynghylch pa bryd fydd dadansoddiad manwl o faint o swyddi yr amcangyfrifir fydd yn bodoli yn ystod y cyfnod adeiladu ar gael. Mae cyfnodau'r galw am weithlu yn allweddol er mwyn deall pa bryd y bydd angen pa sgiliau. [7.5]	Heb eu darparu
Gwybodaeth ynglŷn â'r galw am a chyflenwi sgiliau a hyfforddiant [7.6]	Peth gwybodaeth wedi'i darparu
Asesiad o gapasiti yn y system hyfforddi bresennol [7.6]	Peth gwybodaeth wedi'i darparu
Gwybodaeth am y llefydd hyfforddi fydd yn cael eu darparu yn ôl blwyddyn, cwrs a lefel sgil [7.8]	Heb eu darparu
Manylion am pa mor fawr fydd y broblem o ôl-lenwi swyddi [7.8]	Heb eu darparu
Sut fydd Horizon yn monitro gofynion ar gyfer ôl-lenwi ac amledd y monitro yma [7.8]	Heb eu darparu

Manylion mewn perthynas â'r Canolbwyntiau Gwasanaethau/Bwrdd Rheoli [7.8]	Heb eu darparu
Sut fydd y monitro yn ffrydio i lawr y gadwyn gyflenwi [7.8]	Heb eu darparu
Cadarnhad ynghylch beth yw disgwyliadau Horizon ynglŷn â rôl y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau [7.8]	Heb eu darparu
Mae CSYM angen cadarnhad bod y strategaeth yn gwthio dadleoli/potsio mor hwyr â phosibl i'r cyfnod adeiladu [7.10]	Heb eu darparu
Mwy o eglurhad mewn perthynas â chyfranogiad llafur lleol. [7.12]	Peth gwybodaeth wedi'i darparu
Mae angen eglurder ynglŷn â chyfraddau cyflog er mwyn deall effeithiau posibl dadleoli. Oherwydd bod cyflogau ar Ynys Môn yn isel eisoes, mae problem dadleoli yn un wirioneddol ddilys, ac mae'n dal i fod yn achos pryder i CSYM a busnesau lleol. [7.11]	Heb eu darparu

9.3 Capasiti Addysg

- 9.3.1 Mae'r Map Llwybr Lliniaru yn rhestru 1,039 eitem, ond dim ond dau ohonynt sydd yn cyfeirio at addysg fel 'mater' a dim ond 19 sydd yn cyfeirio at addysg.
- 9.3.2 Mae'n ymddangos bod datganiadau Horizon mewn perthynas â chapasiti 'disgwyliedig' yn canolbwyntio ar y cyfleusterau ffisegol yn unig ac nad ydynt yn ystyried athrawon ac aelodau staff eraill.
- 9.3.3 Mae'n debygol na fydd rhai o ddibynyddion gweithwyr mudol yn meddu ar Gymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, ac mae angen mwy o wybodaeth gan Horizon ynglŷn â nifer y gweithwyr â dibynyddion allai fod yn y categori yma.
- 9.3.4 Mae Horizon yn derbyn cyfrifoldeb mewn egwyddor mewn perthynas â darparu capasiti ar gyfer addysgu'r plant yma, ac mae'n cyfeirio at y Gronfa Effaith Gymunedol fel y ffynhonnell ariannu berthnasol petai angen cymorth, gan awgrymu nad yw'r amodau ar gyfer darparu arian wedi eu nodi. Nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael â'r her o ddarparu'r capasiti addysgu angenrheidiol i'r bobl yma mewn unrhyw ffordd.
- 9.3.5 Mae Horizon yn darparu amcangyfrif o 220 o ddibynyddion gweithwyr mudol yn ystod 'anterth' y cyfnod adeiladu yn unig, gan gydnabod y bydd y gwir ffigur yn dibynnu ar ymarferion recriwtio contractwyr ac isgontractwyr, ac nad oes ganddo reolaeth lawn ar hynny. Nid yw'n rhoi amcangyfrif o'r niferoedd ar adegau eraill yn ystod y cyfnod adeiladu, nac o wir nifer y plant unigol y gallai hynny ei gynrychioli drwy gydol y cyfnod.
- 9.3.6 Nid yw Horizon ychwaith wedi asesu lefel y swyddi dadleoli, a gallai hynny ddenu mwy o deuluoedd mudol dros dro sydd â dibynyddion oedran ysgol sydd angen addysg.

- 9.3.7 Ar gyfer y cyfod gweithredol, mae Horizon yn darparu ffigur parhaol, ond ni roddir amcangyfrif ar gyfer cyfnodau diffodd na'r cyfnod digomisiynu. Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r ddau gyfnod.
- 9.3.8 Ni chyfeirir at y posibilrwydd y bydd gan ddisgyblion anghenion arbennig na goblygiadau hynny i ddarpariaeth capasiti, er bod hynny yn debygol yn ystod y cyfnod adeiladu.
- 9.3.9 Mae yna ymrwymiad cyffredinol i liniaru'r effaith ar y system addysg o ganlyniad i blant gweithwyr mudol ac i ddarparu arian, ond ni roddir gwybodaeth mewn perthynas â chynllunio ar gyfer hynny (ac eithrio monitro), ar ba ffurf fyddai hynny yn digwydd na pa lefel o ddarpariaeth ariannol fyddai'n cael ei roi.
- 9.3.10 Mae Horizon yn nodi y bydd y Gronfa Effaith Gymunedol yn gofalu am "wariant ar hybu niferoedd llefydd mewn ysgolion", ac ariannu "materion lleol megis ysgolion". Fodd bynnag, ni roddir unrhyw ffigurau.

9.4 Ceisiadau gan CSYM a dyddiadau

- 9.4.1 Yn ei lythyr dyddiedig 30.11.17 bu i CSYM gyngori Horizon bod yna ordanysgrifio mewn ysgolion cynradd yn barod ar draws yr Ynys. Mae'r cynnydd rhagdybiedig yn y galw am lefydd mewn ysgolion hyd at 2025 yn golygu y bydd angen gweithredu ar y cynigion i liniaru yn erbyn effeithiau galw cynyddol seiliedig ar gyflogaeth cysylltiedig â'r Prosiect ar adnoddau'r Awdurdod Addysg. [7.16]
- 9.4.2 Yn ei lythyr dyddiedig 30.11.17 bu i CSYM hysbysu Horizon:
- a) Ni ellir asesu'r Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau yn llawn nes bod gan CSYM ddealltwriaeth lawn o sut fydd y gweithlu yn cael ei reoli. [8.17]
 - b) Mae dadansoddiad o gyflwr presennol Ynys Môn ac Ardaloedd Astudiaeth unigol...yn allweddol er mwyn deall 'y sefyllfa bresennol' mewn ardaloedd cyn eu capasiti/gallu i ymdopi/delio ag effeithiau'r Prosiect a phrosiectau eraill a gynllunnir. [8.18]
- 9.4.3 Yn ei lythyr 24.08.18 gofynnodd CSYM am eglurder ar frys ynghylch cyfansoddiad aelwydydd y gweithwyr o'r tu allan, ac yn benodol, nifer y gweithwyr y tybiwyd fyddai'n dod â phartneriaid a dibynyddion gyda nhw. Roedd CSYM yn credu ei bod yn hanfodol deall o ble deilliodd y ffigur hwnnw a pha mar gadarn yw'r ffigur er mwyn deall yn iawn beth fydd y galw am lefydd mewn ysgolion i'r dyfodol (yn arbennig yng Ngogledd Sir Fôn) a'r galw am wasanaethau trochi. Cafwyd ymateb gan Horizon ond ni chafwyd eglurder ynglŷn â'r mater.

10.0 Rhwymedigaethau a gofynion DCO

Crynodeb o'r camau lliniaru

10.1 Effaith 1: Cynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod adeiladu

10.1. 1 Mae angen swît o fesurau lliniaru seiliedig ar dystiolaeth er mwyn atgyfnerthu addysg a hyfforddiant a gwella galluogrwydd a hyblygrwydd y gweithlu lleol. Bydd arian a chymorth priodol gan Horizon ar gyfer y mesurau a gynigir yn arwain at fwy o gyfleoedd gwaith y mae trigolion Ynys Môn yn briodol gymwys ar eu cyfer ar draws ystod o rolau yn ystod y cyfnod adeiladu, gan leihau rhai o effeithiau niweidiol y Prosiect drwy wneud y mwyaf o lafur lleol.

10.1. 2 Mae'r cynigion wedi eu dylunio i gefnogi:

- a) pobl sydd ar hyn o bryd yn gweithio sydd â'r sgiliau angenrheidiol;
- b) pobl sydd yn gweithio ond sydd angen sgiliau ychwanegol er mwyn bodloni gofynion penodol Prosiectau EIP, pobl sydd wedi colli eu swyddi yn dilyn cau gweithfeydd yn ddiweddar;
- c) pobl ddi-waith yn cynnwys rhai sy'n ddi-waith yn hirdymor;
- d) pobl ifanc nad ydynt ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET); a
- e) phobl leol sydd wedi symud o Ynys Môn er mwyn sicrhau gwaith sydd efallai yn dymuno dychwelyd ac sydd wedi eu denu gan y swyddi newydd a gynigir.

10.1.3 Mae Atodiad 7A (adran 2) yn rhoi mwy o fanylion am y camau lliniaru arfaethedig.

10.2 Effaith 2: Cynnydd mewn cyfranogiad llafur lleol yn ystod y cyfnod gweithredu

10.2.1 Mae llwybrau addysg a hyfforddiant sydd yn berthnasol i bob rôl weithredol yn Wylfa Newydd yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i drigolion Ynys Môn, ac mae angen lefel briodol o gefnogaeth gan Horizon i gyflawni hynny. Y targed ar gyfer cyflogeion lleol mewn perthynas â'r cyfnod gweithredol, dylid pennu bod hynny yn 100%.

10.2.2 Mae'r camau lliniaru a gynigir yn fras yr un fath â'r rhai a nodir ar gyfer Effaith 1, ac mae unrhyw wahaniaethu o ran ffurf darparu mesurau penodol yn deillio o amgylchiadau ac angen lleol. Byddai lefel y mesurau hyn, ac felly lefel y cymorth a geisir gan Horizon, yn llai nag yn ystod y cyfnod adeiladu, ac mae hynny yn adlewyrchu'r nifer llai o weithwyr fyddai'n ymwneud â Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod gweithredol.

10.2.3 Mae Atodiad 7A yn rhoi manylion am y camau lliniaru arfaethedig.

10.3 Effaith 3: Effeithiau negyddol posibl dadleoli a tharfu ar ysgolion

10.3.1 Bydd cynyddu lefel sgiliau trigolion Ynys Môn yn lleihau prinder sgiliau ar gyfer Wylfa Newydd a chyflogwyr y bydd dadleoli yn effeithio arnynt, gan helpu i warchod rhag tarfu ar fusnesau neu anawsterau recriwtio. Felly, mae'r mesurau a gynigir o dan Effeithiau 1 a 2 yn cael eu cynnig hefyd er mwyn lliniaru'r effeithiau yma. Mae'r mesurau yma yn defnyddio dull cysylltiedig ag addysg a sgiliau o liniaru effeithiau negyddol dadleoli, ond efallai y bydd yna effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach fydd angen mathau eraill o liniaru neu ddigolledu.

10.3.2 Mae angen cymryd camau rhagweithiol addas ar gyfer ysgolion ble gallai effeithiau sŵn a llwch ddigwydd.

10.3.3 Atodiad 7A yn dangos mwy o fanylion am y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddibynnol ar ddeialog gyda Horizon.

10.4 Gofynion sydd yn gyffredin i gamau lliniaru 1 i 3

10.4.1 Dylai manylion yr holl gamau lliniaru fod yn briodol i'r patrymau cyflogaeth amrywiol fydd yn ymddangos yn ystod pob cam o'r Prosiect. Efallai y bydd angen addasu darpariaeth a ffurf camau lliniaru dros gyfnod o amser a bydd angen diweddarau'n achlysurol, er enghraifft, wrth i gyfryngau digidol greu cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu.

10.4. 2 Dylai camau lliniaru fod yn gysylltiedig â blaenoriaethau ehangach, megis y rhai a nodir gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ymchwil perthnasol. Mae angen trafodaeth rhwng Horizon, CSYM a rhanddeiliaid eraill megis Colegau Cymru ar y cynlluniau manwl, er mwyn sefydlu dichonolrwydd a goblygiadau cost yn fanylach.

10.5 Effaith Leol 4: Capasiti ffisegol i wasanaethu dibynyddion gweithwyr mudol

10.5.1 Bydd capasiti dros ben presennol mewn ysgolion yn cael ei leihau gan CSYM fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol i ddiweddarau a moderneiddio'r stoc ysgolion o fewn cyllidebau cyfyngedig.

10.5.2 Mae'n debygol y bydd yna broblemau capasiti mewn ardaloedd penodol. Gellir ond datblygu rhagfynegiad manwl o'r cymorth fydd ei angen drwy drafodaeth rhwng Horizon a CSYM ynghylch cynlluniau i aildrefnu a moderneiddio ysgolion gan ystyried effaith Wylfa Newydd. Dylai'r cynigion gefnogi amcanion CSYM i sicrhau:

- a) amgylcheddau dysgu fydd yn galluogi gweithredu strategaethau yn llwyddiannus er mwyn gwella a chyflawni deilliannau addysgol gwell;
- b) gwell economi ac effeithlonrwydd ar gyfer amgylcheddau dysgu drwy ddefnyddio adnoddau yn well
- c) system addysg gynaliadwy sydd yn bodloni safonau adeiladu cenedlaethol ac sydd yn lleihau costau cyson ac ôl troed carbon adeiladau addysg.
- d) cynyddu defnydd ysgolion ar gyfer budd cymunedol.
- e) datblygu darpariaeth cofleidiol ar safle unigol ar gyfer pob un dan 11 oed.

10.5.3 Mae'r senarios y mae angen gofalu amdanynt yn cynnwys:

- a) Ysgolion cynradd â chapasiti annigonol ar gyfer dosbarthiadau derbyn ond digon ym mhob dosbarth arall. Efallai y bydd angen gwneud gwaith adeiladu er mwyn addasu'r gofod yma.
- b) Ysgolion cynradd sydd angen mwy o ofod dosbarth ble gallai ailwampio gofod cymunol presennol fodloni'r angen hwnnw;
- c) Ysgol uwchradd sydd angen labordai dylunio a thechnoleg neu wyddoniaeth, sydd angen dosbarth/labordy newydd ac offer.

10.5.4 Mae angen archwilio capasiti estynedig ysgolion meithrin ar safleoedd presennol a'r mecanweithiau ar gyfer ariannu rhai gaiff eu cynnal yn breifat.

10.5.5 Mae'n rhaid caniatáu ar gyfer cydnerthedd yn erbyn y posibilrwydd y bydd gweithwyr mudol yn aros ar yr Ynys pan fo'u cyflogaeth gyda'r Prosiect yn dod i ben.

10.6 Effaith Leol 5: Capasiti staff er mwyn darparu addysg o ansawdd uchel i ddibynyddion gweithwyr mudol

10.6.1 Er mwyn bodloni anghenion staffio ychwanegol ac er mwyn lliniaru ar y tarfu fydd yn cael ei achosi gan blant na fyddant yn siarad Cymraeg neu Saesneg o bosibl ar addysg eraill yn dangos bod angen atgyfnerthu'r gweithlu addysgu. Mae angen cymryd camau'n gynnar oherwydd yr amseroedd arweiniol hir sydd yn gysylltiedig

â hyn. Ni ddylai defnyddio mwy o athrawon llanw neu symud athrawon yn amlach rhwng dosbarthiadau fod yn rhan o'r camau lliniaru yma.

10.6.2 Y camau lliniaru sydd eu hangen

- a) Cyflogi'r staff ychwanegol sydd ei angen er mwyn ymestyn y gweithlu'n ddigonol er mwyn addysgu dibynyddion ychwanegol gweithwyr mudol;
- b) Cryfhau'r gweithlu presennol mewn ffyrdd sydd yn galluogi i'r camau uchod ac eraill a gynigir yn y ddogfen hon gael gwell gobaith o lwyddo.

10.6.3 Mae angen adnoddau er mwyn cefnogi:

- a) Uwchraddio ystafelloedd staff ac ardaloedd staff yn unig
- b) Buddion chwaraeon/hamdden i athrawon
- c) Cymhelliannau i addysgu mewn ysgolion uwchradd
- d) Atgyfnerthu'r addysgu mewn ysgolion cynradd
- e) Cyfrannu at hyfforddiant athrawon cychwynnol
- f) Gwella sgiliau y gweithlu addysgu presennol
- g) Offer hyfforddi a mentora ar-lein

10.7 Effaith Leol 6: Darparu gwasanaethau trochi'r Iaith Gymraeg ar gyfer dibynyddion gweithwyr mudol sydd newydd gyrraedd

10.7.1 Cefnogaeth i ddysg trochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant o 3 oed yn gallu datblygu eu sgiliau Iaith Gymraeg, ac mae'n flaenoriaeth i'r Awdurdod atgyfnerthu a diogelu addysg Iaith Cymraeg a dwyieithog.

10.7.2 Mae'r ddwy ganolfan drochi ar yr Ynys yn agos iawn at eu llawn gapasiti. Dylai'r camau lliniaru gynnwys cynyddu capasiti'r gwasanaeth, a chynigir bod dwy ganolfan newydd yn cael eu sefydlu mewn lleoliadau newydd er mwyn darparu mynediad rhesymol i bob rhan o'r Ynys, a bod capasiti canolfannau presennol yn cael eu cynyddu hefyd.

10.7.3 Mae angen trochi ym mhob ysgol uwchradd, gan sicrhau cymhareb athro i blentyn o 1:8, a dylid caniatáu mwy o atgyfnerthu er mwyn cydymffurfio â 'chontinwrm yr Iaith Gymraeg', sydd yn rhan o strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

10.7.4 Dylai lliniaru gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi athrawon mewn technegau trochi iaith, o bosibl drwy dîm o Athrawon Cefnogi Iaith o dan oruchwyliaeth y canolfannau iaith, allai hefyd helpu i fonitro a chefnogi'r broses mewn ysgolion a chanolfannau.

10.8 Effaith Leol 7: Effeithiau ar addysg eraill o ganlyniad i ddibynyddion gweithwyr mudol

10.8.1 Yn ychwanegol at dechnegau trochi, mae angen mesurau ehangach er mwyn atgyfnerthu'r broses o recriwtio a chadw athrawon er mwyn darparu mwy o gydnerthedd i addysgu ar draws yr Ynys.

10.8.1 Mae recriwtio a chadw athrawon yn golygu amseroedd arwain hir, a bydd yr angen i ddarparu capasiti ychwanegol o ganlyniad i Wylfa Newydd yn cynyddu'r broblem honno yn sylweddol.

10.8.2 Mae'n rhaid i gamau lliniaru allu cefnogi:

- a) Uwchraddio ystafelloedd staff ac ardaloedd staff yn unig
- b) Buddion chwaraeon/hamdden i athrawon
- c) Cymhelliannau i addysgu mewn ysgolion uwchradd
- d) Atgyfnerthu'r addysgu mewn ysgolion cynradd
- e) Cyfrannu at hyfforddiant athrawon cychwynnol
- f) Gwella sgiliau y gweithlu addysgu presennol
- g) Offer hyfforddi a mentora ar-lein

10.9 Effaith Leol 8: Darpariaeth anghenion arbennig

10.9.1 Mae'n rhaid cefnogi polisi CSYM i wasanaethu rhai ag anghenion arbennig mewn ysgolion prif lif, pan fyddir yn wynebu mwy o ddysgwyr ag anghenion arbennig.

10.9.2 Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth gydnabod y bydd anghenion pob dysgwr yn wahanol ac na ellir rhagfynegi hynny yn rhwydd.

10.9.3 Mae'n rhaid cefnogi cyfleusterau sydd eu hangen i fodloni anghenion dysgwyr mewn ysgolion prif lif a darpariaeth ffisegol (megis gliniaduron, addasiadau ar gyfer mynediad eu fannau tawel) ac ar gyfer staff megis cydlynwyr anghenion addysgol arbennig.

10.9.4 Mae'n rhaid i'r camau lliniaru adlewyrchu bod yr ysgol arbennig bresennol (Ysgol AAA Canolfan Addysg y Bont) yn llawn ar hyn o bryd, ac nad oes arwydd y bydd yr angen sylfaenol am lefydd yn gostwng.

11.0 Sut mae'r camau lliniaru arfaethedig yn perthnasu â chynigion Horizon

11.1 Mae Horizon yn derbyn cyfrifoldeb am liniaru effeithiau nifer ychwanegol o ddibynyddion gweithwyr o du allan i'r Ynys fydd angen addysg, ac mae'n cyfeirio at y gronfa briodol. Cynigion Horizon yw monitro'r angen am lefydd ychwanegol, ond mae'n asesu na fydd yn debygol y bydd angen yr un. Mewn perthynas ag effaith dysgwyr o'r tu allan fydd heb sgiliau Iaith Cymraeg, cynigir lefel isel o gefnogaeth addysgu, fydd eto yn cynnwys monitro.

11.2 Mae CSYM yn cynnig dull mwy cynlluniedig a rhagweithiol, yn seiliedig ar sicrhau bod y lefel uchaf o ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei ddarparu mewn da bryd ac mewn ffordd sydd yn gost effeithiol i Horizon mewn perthynas â chynlluniau parhaus CSYM ar gyfer moderneiddio a gwella ysgolion. Oherwydd bod y cynlluniau yma o reidrwydd yn cael eu gwneud fesul cam, bydd y camau lliniaru terfynol yn gymysgedd o fesurau pendant a mesurau dros dro. Ond oherwydd na ellir diffinio llawer o'r mesurau yn llawn ar y cychwyn, mae'n rhaid llunio amserlen ar gyfer eu cwblhau ar yr adeg briodol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn barod ar gyfer y dysgwyr.

11.3 Mewn perthynas â gwasanaethau trochi Iaith Gymraeg, mae CSYM yn cynnig dull sydd yn fwy realistig o ran angen, yn gynhwysfawr o ran effeithiau ac yn gydnerth er mwyn delio ag ansicrwydd. Mae darpariaeth CSYM hefyd yn ystyried ffactorau allanol perthnasol megis tueddiadau demograffeg a moderneiddio.

11.4 Dibyniaeth ar fwy o fanylion gan Horizon

11.5 Er mwyn pennu lefelau priodol o gyfraniadau er mwyn lliniaru'r problemau o ran cyfleusterau a staff, bydd angen i Horizon ddarparu mwy o wybodaeth am sut mae wedi cyfrifo'r ystod o lefydd ychwanegol posibl a'r ffactorau sydd yn effeithio ar hynny. Hefyd dylai gydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ehangach awdurdodau lleol mewn perthynas â defnyddio dull cynlluniedig o aildrefnu capasiti, rheoli cyllidebau ysgolion a chynnal capasiti ar gyfer amrywiad lleol tymor byr yn y galw.

11.6 Bydd mwy o wybodaeth gan Horizon yn helpu i glustnodi rhagamcan o'r niferoedd disgwylidig o ddibynyddion gweithwyr mudol fydd yn deillio o gyflogaeth yn Wylfa Newydd a dadleoli. Mae angen dull cynlluniedig o sefydlu'r camau lliniaru angenrheidiol ar gyfer y niferoedd a ragfynegir, a'u hanghenion disgwylidig, a hynny mewn da bryd.